Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

# Gwrthsafiad a pharch

## Datblygu cydlyniant cymunedol – dealltwriaeth gyffredin ar gyfer ysgolion a'u cymunedau

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

## Canllawiau

Dogfen canllawiau Rhif: 045/2011
Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2011

# Gwrthsafiad a pharch

**Cynulleidfa** Cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion uwchradd a gynhelir ac ysgolion uwchradd annibynnol, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru. Awdurdodau lleol; Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc; Partneriaethau Diogelwch Cymunedol; cadeiryddion Byrddau Diogelu Plant Lleol; cyfarwyddwyr esgobaethol; undebau athrawon ac undebau eraill; sefydliadau hyfforddi athrawon; gwasanaethau ieuenctid a gynhelir a rhai gwirfoddol; cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sy'n ymwneud â datblygu cydlyniant cymunedol.

**Trosolwg** Dogfen ganllaw ac arferion da yw hon sydd â'r amcan o hybu datblygiad cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar yn yr holl ysgolion uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig a lleoliadau addysgol eraill.

**Camau i'w cymryd** Cymryd sylw dyladwy o'r canllawiau a'r arferion da er mwyn helpu ysgolion i ddatblygu a hybu dulliau strategol o hyrwyddo a chynnal cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid anfon pob ymholiad am y ddogfen wybodaeth hon i:
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6001/6820
e-bost: CydlyniantCymunedolAPADGOS@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig** *Cymru'n Cyd-dynnu – Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru* (2009)
*Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion* (2008)
*Arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion uwchradd o Fedi 2010* (Estyn, 2010)

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 5874 0
© Hawlfraint y Goron 2011
WAG10-10298
F4511011

# Cynnwys

**Rhagair y Gweinidogion** **3**

**Crynodeb gweithredol** **4**

**1. Cyflwyniad** **10**

**2. Beth yw cydlyniant cymunedol?** **13**

**3. Y cyd-destun Cymreig** **15**

**4. Beth mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i atal eithafiaeth dreisgar** **19**

**5. Ysgolion a'u cymunedau - dulliau effeithiol o ymdrin â chydlyniant cymunedol** **28**

**6. Cyngor ac arweiniad i ysgolion** **30**

6.1 Arweinyddiaeth 32

6.2 Gweithio gydag eraill 50

6.3 Y cwricwlwm ac addysgu 57

6.4 Ymyrryd a chefnogi 70

6.5 Rheoli risgiau ac ymateb i ddigwyddiadau 76

**Atodiadau**

Atodiad 1: Canllawiau ar y cwricwlwm ac adnoddau sy'n ymwneud â datblygu cydlyniant cymunedol 82

Atodiad 2: Adnoddau cwricwlwm sy'n ymwneud yn benodol â PREVENT 88

Atodiad 3: Adnoddau ychwanegol 89

Atodiad 4: Pwerau Cyfreithiol a Chontractol 91

Atodiad 5: Enghreifftiau o adroddiadau thematig perthnasol gan Estyn 95

Atodiad 6: Rhestr gyfeirio o'r holl weithgareddau yn erbyn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn 97

Gwrthsafiad a pharch

Ionawr 2011

Dogfen canllawiau
Rhif: 045/2011

Gwrthsafiad a pharch

Ionawr 2011

Dogfen canllawiau
Rhif: 045/2011

# Rhagair y Gweinidogion

Mae *Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru* yn gosod ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau cymdeithas deg a chyfiawn; lle caiff pob dinesydd ei rymuso i benderfynu ar natur ei fywyd ei hun a llunio'r gymuned y mae'n byw ynddi.

Dim ond drwy gefnogaeth ymarferol dros ystod eang o ddulliau darparu gwasanaethau a pholisi y gellir sicrhau cydlyniant cymunedol fel nod strategol. Y gwir amdani yw bod pawb yn gyfrifol am gydlyniant cymunedol. Mae gan ddysgu'r potensial i fod yn adnodd pwerus wrth hyrwyddo integreiddio a chyd-barch. Gallwn gyfranogi mewn dysgu ar adegau gwahanol yn ein bywydau, ac mae amryw leoliadau lle gallwn gael mynediad at ddysgu. Mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd amhrisiadwy i negeseuon cadarnhaol ynglŷn â chydlyniant gael eu hyrwyddo drwy brofiadau dysgu ar draws pob grŵp oedran a chefndir.

Mae'r ddogfen hon wedi'i chreu i ddarparu canllawiau a chyngor i ysgolion ynghylch sut gallant ddatblygu'r maes polisi hynod bwysig hwn yn unol â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Mae'n amlwg bod gan ysgolion bro, a'r athrawon a'r staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc, rôl hollbwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod ganddynt amgylchedd diogel a chefnogol iddynt allu cwestiynu pethau ynddo, ond hefyd iddynt allu deall a meithrin goddefgarwch a pharch at eraill. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i atal unigolion, yn enwedig pobl ifanc, rhag cael eu tynnu i mewn i weithgareddau anghyfreithlon sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth dreisgar.

Rydym wedi ymgynghori'n eang ag ysgolion, athrawon, undebau, yr Heddlu ac eraill er mwyn dwyn y canllawiau hyn ynghyd, ac rydym yn ffyddiog y byddwch yn canfod bod y canllawiau yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth a chyngor wrth fynd i'r afael â maes polisi hollbwysig sy'n hynod heriol.



**Leighton Andrews AC**
Y Gweinidog dros Blant,
Addysg, a Dysgu Gydol Oes



**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog dros
Gyfiawnder Cymdeithasol
a Llywodraeth Leol

Gwrthsafiad a pharch
Ionawr 2011
Dogfen canllawiau
Rhif: 045/2011

# Crynodeb gweithredol

Mae ar Gymru angen cymunedau cryf, gwydn a chytûn sy'n gallu ymateb yn effeithiol i gyflymder a maint cynyddol newidiadau economaidd, cymdeithasol, a diwylliannol yn yr unfed Ganrif ar hugain. Diben y ddogfen hon sy'n rhoi canllawiau a chyngor yw cefnogi ysgolion a'u partneriaid i ddatblygu dulliau sy'n hyrwyddo ac yn cynnal cydlyniant cymunedol. Er ein bod yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymunedau fwyfwy amrywiol, mae profiad wedi dangos i ni y gall tensiynau lleol ddatblygu'n gyflym. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai o'n dysgwyr yn agored i niwed. Mae'n bosib iddynt gael eu radicaleiddio ac mae'n bosib iddynt ymwneud â gweithgareddau eithafol treisgar.

Mae angen i Ysgolion, Awdurdodau Lleol a'u partneriaid gymryd rhan weithredol wrth ddatblygu cydlyniant cymunedol ymhellach ac adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud bob dydd yn ein hysgolion ar hyn o bryd.

## Rhan 1: Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon sy'n rhoi canllawiau a chyngor yn amlinellu'r rôl sydd gan ysgolion i'w chwarae wrth ddatblygu a chefnogi dulliau strategol o hyrwyddo a chynnal cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar.

Mae'r canllawiau'n adeiladu ar bolisi ac arfer cyfredol. Bydd ysgolion eisoes yn gwneud llawer o'r gwaith, ond bydd yn rhoi cyfle i ysgolion adolygu eu gwaith fel rhan o'u proses hunanwerthuso. Mae'r canllawiau'n helaeth a bydd angen i ysgolion wahaniaethu eu hymatebion yn dibynnu ar ba mor ddatblygedig yw eu gwaith yng nghyswllt datblygu cydlyniant cymunedol.

Mae'r canllawiau'n gyson ag egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, ac mae'n cysylltu'r gweithgareddau a argymhellir i Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.

## Rhan 2: Beth yw cydlyniant cymunedol?

Diffinnir cydlyniant cymunedol yn yr ystyr eang. Mae'n hanfodol bod pob ysgol yn derbyn y diffiniad ac yn adnabod yr amrywiol faterion sy'n gallu effeithio ar gydlyniant cymunedol. Caiff barn dysgwyr

ei chynnwys ac mae'n tynnu sylw at eu dealltwriaeth o gydlyniant cymunedol.

## Rhan 3: Y cyd-destun Cymreig

- Al Qa'ida yw'r bygythiad mwyaf arwyddocaol i'r DU gan derfysgwyr ar hyn o bryd, ac yng Nghymru, rhaid i ni gydnabod effaith cyrff hiliol a ffasgaidd eraill.
- Mae tystiolaeth bod pobl ifanc sy'n agored i niwed yn cael eu recriwtio i'r Welsh Defence League a grwpiau eithafol eraill.
- Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o densiynau cymunedol, a chael dealltwriaeth ohonynt.
- Mae'n bwysig bod ysgolion yn datblygu cysylltiadau â'u Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'u timau plismona cymdogaeth.

## Rhan 4: Beth mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i atal eithafiaeth dreisgar

Er mwyn ymateb i'r bygythiadau gan grwpiau eithafol, mae Llywodraeth y DU wedi datblygu ystod o strategaethau wedi'u hanelu at atal pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu gefnogi eithafiaeth dreisgar.

- Amlinellir achosion eithafiaeth dreisgar a'r broses radicaleiddio.
- Mae eithafwyr yn defnyddio naratifau perswadiol i ddenu pobl at eu hachos, yn seiliedig ar ddehongliad neu afluniad penodol o hanes, gwleidyddiaeth neu grefydd.
- Nid oes unrhyw un proffil o unigolyn sy'n debygol o ymwneud ag eithafiaeth, nac un dangosydd sy'n awgrymu pryd y mae unigolyn yn debyg o droi at arddel trais i gefnogi syniadau eithafol.

Fodd bynnag, mae angen i ni allu ymateb i bryderon sy'n gysylltiedig ag unrhyw unigolyn ifanc rydym ni'n credu ei fod mewn perygl. Mae'r gweithdrefnau amddiffyn plant cadarn o gymorth i amddiffyn ein pobl ifanc sy'n agored i niwed, ac rydym yn argymell bod angen i ysgolion ac awdurdodau lleol sefydlu cysylltiad clir o fewn eu hawdurdodau eu hunain, yn ddelfrydol gyda heddwas penodol.

## Rhan 5: Ysgolion a'u cymunedau - dulliau effeithiol o ymdrin â chydlyniant cymunedol

Mae angen i gymuned yr ysgol gyfan fynd i'r afael â chydlyniant cymunedol, nid dim ond yr athrawon a'r dysgwyr, ond rhieni, gofalwyr, llywodraethwyr, ymwelwyr ac unrhyw oedolyn sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

- Nid cyfrifoldeb un maes pwnc yn unig yw hyn.
- Nid cyfres o gysyniadau arwahanol na gwersi yn yr ystafell ddosbarth yn unig yw hyn.
- Nid cyfrifoldeb un athro yn unig yw hyn.
- Bydd angen i ysgolion godi ymwybyddiaeth y staff i gyd ynghylch pwysigrwydd datblygu a chynnal cydlyniant cymunedol.

Mae cydlyniant cymunedol wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin, a chyfeirir at hyn drwy Ran 6: Cyngor i Ysgolion ac yn Atodiad 6. Mae Atodiad 5 yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag adroddiadau thematig a wnaed gan Estyn.

## Rhan 6: Cyngor i ysgolion

Bydd angen i ysgolion ddefnyddio'r adrannau canlynol i benderfynu pa waith fydd angen ei wneud.

Mae'r canllawiau'n adeiladu ar bolisi ac arfer cyfredol a dylai roi cyfle i ysgolion adolygu eu gwaith fel rhan o'u proses hunanwerthuso.

Mae'r canllawiau'n helaeth, ac mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw bod y staff i gyd yn rhan o ddatblygu cydlyniant cymunedol.

Bydd angen i ysgolion wahaniaethu eu hymatebion yn dibynnu ar ba mor ddatblygedig yw eu gwaith yng nghyswllt datblygu cydlyniant cymunedol o ran cyd-destun yr ysgol a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Er enghraifft, gall ysgolion adeiladu ar y gwaith maent eisoes yn ei wneud ar:

- Hyrwyddo Siarter y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Hyrwyddo saith amcan craidd 'Gweithredu'r Hawliau'.

- Datblygu rôl ffocws cymunedol ysgolion.
- Meithrin gwytnwch yr ysgol drwy ddarparu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF).
- Gwaith aml-asiantaeth i amddiffyn plant agored i niwed.

**Rhan 6.1 Arweinyddiaeth**

Dylai llywodraethwyr, arweinwyr yr ysgol a staff ar bob lefel fod yn rhan o sicrhau bod gweledigaeth ac ethos yr ysgol yn ategu'r pwrpas moesol craidd o well deilliannau dysgu a gwell lles i blant a phobl ifanc ni waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol-economaidd.

Mae arweinyddiaeth effeithiol hefyd yn cynnwys sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar eu dysgu.

Mae angen clir i staff ddatblygu eu sgiliau i ddelio â materion sensitif a dadleuol yn eu dosbarthiadau. Bydd sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol yn rhoi'r cyfle i staff roi sylw i'r angen hwn.

**Rhan 6.2 Gweithio gydag eraill**

Mae ysgolion bro yn chwarae rôl ganolog wrth ddatblygu cydlyniant cymunedol. Bydd ysgolion bro effeithiol yn sicrhau bod teuluoedd a'r gymuned ehangach yn cael eu cynnwys, gan gynnwys grwpiau crefyddol, asiantaethau statudol a'r sector gwirfoddol. Bydd gweithio gydag asiantaethau eraill yn helpu i roi sylw i les a dyheadau dysgwyr unigol. Bydd harneisio arbenigedd pobl eraill a defnyddio ffynonellau'r ysgol i'r eithaf yn gwella lles a chanlyniadau'r dysgwyr.

**Rhan 6.3 Y cwricwlwm ac addysgu**

Bydd addysgu o safon uchel sy'n hyrwyddo hawliau dynol ac sydd wedi'i addasu i adnabod anghenion lleol ac sy'n herio naratifau eithafol yn adeiladu cydlyniant cymunedol a gwytnwch yn erbyn eithafiaeth dreisgar. Bydd angen i athrawon fagu hyder i ddelio â materion sensitif a dadleuol sy'n codi fwyfwy ar draws y cwricwlwm, yn enwedig os yw pobl ifanc yn agored i radicaleiddio ac yn arddel naratifau eithafol. Mae'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru, y craidd dysgu 14-19 ac elfennau traws-gwricwlaidd megis addysg ar gyfer

datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn darparu nifer o gyfleoedd i ddysgwyr gael gwell dealltwriaeth o faterion byd-eang. Ceir amrywiaeth eang o ffynonellau i gefnogi'r cwricwlwm ac i gefnogi addysgu yn Atodiadau 1 i 3.

**Rhan 6.4 Ymyrraeth a chefnogi**

Mae staff mewn ysgolion yn y sefyllfa orau i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed. Rhaid iddynt deimlo'n hyderus i gymryd camau ataliol ac ymatebol i gefnogi dysgwyr sy'n awgrymu y gallant fod yn agored i radicaleiddio a chael eu tynnu i mewn i weithgareddau eithafol treisgar. Mae amrywiaeth o arwyddion a mathau o ymddygiad y mae'n bosib y daw ysgol ar eu traws a bydd angen iddynt benderfynu a oes angen ymyrraeth wedi'i thargedu neu ymyrraeth arbenigol. Rhaid i ysgolion sicrhau bod aelod arweiniol o staff wedi'i enwi a all fod yn ffynhonnell o gyngor i eraill ac arwain eraill wrth ymwneud â phartneriaid allanol.

**Rhan 6.5 Rheoli risgiau ac ymateb i ddigwyddiadau**

Er nad oes llawer o achosion lle mae pobl ifanc yn agored i negeseuon eithafwyr treisgar mewn ysgolion, mae hon yn risg y mae angen i ysgolion fod yn ymwybodol ohoni. Mae'n bosib i ddylanwadau niweidiol ar ddysgwyr ddod o lywodraethwyr, staff, rhieni, dysgwyr eraill a grwpiau allanol. Nodir enghreifftiau o bwerau cyfreithiol a chontractaidd y gallant fod yn berthnasol yn Atodiad 4.

Mae cael mynediad at ffynonellau amhriodol drwy ddefnyddio systemau TGCh, ffonau symudol a dyfeisiau rhyngweithiol eraill yn peri bygythiad, a dylai'r ysgol sicrhau bod ganddi Bolisi Defnydd Derbyniol sy'n hawdd ei ddeall.

Hefyd, mae angen i ysgolion ystyried sut maent yn ymateb i ddigwyddiadau sy'n digwydd yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol a sut gallant effeithio ar gydlyniant cymunedol.

## Casgliad

Mae'r canllawiau a'r cyngor yn helaeth; ond nid ydynt yn gyflawn, ac nid ydynt yn anelu i fod yn gyfarwyddyd - bydd angen i ysgolion a phartneriaid lleol ddatblygu ymatebion sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion y gymuned y maent yn ei gwasanaethu. Mae hyrwyddo cydlyniant cymunedol yn rhan gynhenid o'r gwaith y mae ysgolion yn ei wneud bob dydd. Mesur llwyddiant y gwaith fydd bod yr ysgolion a'r cymunedau rydym ni'n rhoi gwerth mor uchel arnynt yng Nghymru yn parhau, mewn blynyddoedd i ddod, i fod yn llefydd da i fyw, yn llefydd wedi'u nodweddu gan gyd-barch, yn llefydd lle gall pobl gyd-dynnu a lle mae pobl yn cyd-dynnu.

# 1. Cyflwyniad

**Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:**

**Cyflwyniad**

**Nodau'r canllawiau**

**Ar gyfer pwy mae'r canllawiau?**

**Statws a threfn y ddogfen ganllaw**

**Adeiladu ar sail y gwaith presennol mewn ysgolion**

## Cyflwyniad

Dogfen ganllaw ac arferion da yw hon i helpu ysgolion i gyflawni eu rôl o ran datblygu a hybu dulliau strategol o hyrwyddo a chynnal cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod ysgolion yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol o fewn y gymuned. Mae *'Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru'* yn disgrifio'r cysylltiadau rhwng cydlyniant cymunedol a dysgu.

Mae ysgolion yn ategu cydlyniant cymunedol lleol yn uniongyrchol drwy gyfleu negeseuon pendant a chadarnhaol i blant a phobl ifanc er mwyn hybu cyd-ddealltwriaeth a pharch. Nid drwy'r cwricwlwm yn unig y gwneir hyn ond hefyd drwy greu ethos cadarnhaol ym mywyd cymunedol yr ysgol. Gall ysgolion hyrwyddo parch at hanes diwylliannol lleol ac ymdrechu i feithrin parch at amrywiaeth ddiwylliannol, ethnig, grefyddol ac ieithyddol yng nghymuned yr ysgol. Mae ganddynt rôl bwysig o ran datblygu plant a phobl ifanc yn ddinasyddion gweithgar. Mae plant a phobl ifanc yn ddinasyddion drwy eu hawl eu hunain ac yn meddu ar hawliau dynol yn ogystal â hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. http://www2.ohchr.org/english/law/crc.htm

Mae ystod eang o weithgarwch - a hynny'n adlewyrchu'r ffaith bod cydlyniant cymunedol yn gyfrifoldeb i bawb. Gall ein pobl ifanc hyrwyddo cydlyniant cymunedol a thrwy addysg gallwn chwalu ofnau a meithrin mwy o allu i wrthsefyll safbwyntiau eithafol.

Serch hynny, yr unig fodd i wireddu cydlyniant cymunedol fel nod strategol yw drwy gymorth ymarferol ar draws ystod eang o feysydd cyflenwi gwasanaethau a pholisi. Mae ymchwil wedi dangos bod addysg a thai, ymysg ffactorau eraill, yn gallu cael effaith sylweddol ar y graddau y mae cymuned yn cyd-dynnu.

Mae pwyslais yn *'Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru'* ar werth partneriaethau lleol ac ar y rôl bwysig sydd gan gyrff sy'n gweithio ar lefel gymunedol ac mae'n cydnabod yn frwd ei bod yn hollbwysig ymgysylltu â phobl sy'n byw mewn

cymunedau. Mae cymuned sy'n cydweithio'n dda yn y ffyrdd hyn yn gymuned sydd hefyd yn debygol o allu gwrthsefyll heriau o'r tu allan neu densiynau mewnol.

## Nodau'r canllawiau

Bwriad y canllawiau yw:

- Diffinio cydlyniant cymunedol.
- Hybu **ymwybyddiaeth** ysgolion o'r rhan bwysig y maent yn ei chwarae wrth sicrhau cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar.
- Helpu ysgolion i ddeall y **cyfraniad cadarnhaol** y gallant ei roi at rymuso pobl ifanc er mwyn creu cymunedau sy'n fwy cydlynol a chydnerth; diogelu lles dysgwyr neu grwpiau penodol a allai fod yn agored i'r perygl o gael eu tynnu i mewn i weithgarwch eithafol treisgar.
- Rhoi **gwybodaeth** am:
  - achosion eithafiaeth dreisgar
  - camau gweithredu ataliol sy'n digwydd yn lleol ac yn genedlaethol
  - ffynonellau gwybodaeth a chyngor ychwanegol i ysgolion.
- Cynnig cyngor ynghylch **rheoli risgiau** ac ymateb i ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol neu ryngwladol a allai effeithio ar gydlyniant cymunedol.

## Ar gyfer pwy mae'r canllawiau?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer yr holl ysgolion uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig yng Nghymru gan gynnwys ysgolion annibynnol. Maent hefyd yn berthnasol i weithwyr ieuenctid ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Mae'r canllawiau wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer arweinwyr ysgolion i'w defnyddio wrth adolygu arferion yn yr ysgol a briffio staff. Bydd rhai adrannau, fel y cyngor ynghylch datblygu'r cwricwlwm, yn neilltuol o berthnasol i arweinwyr cwricwlwm a staff addysgu.

## Statws a threfn y ddogfen ganllaw

Mae'n fwriad i'r canllawiau ategu a bod yn gyson ag egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a chanllawiau Estyn yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Nid yw'r canllawiau hyn yn gosod unrhyw ofynion newydd ar ysgolion. Mae'r ddogfen yn cynnwys gwybodaeth a chyngor hanfodol ar gyfer adolygu arferion yn yr ysgol a datblygu gweithio mewn partneriaeth. Ar ddiwedd pob is-adran tynnir sylw at gamau gweithredu y gallai fod angen i ysgolion eu cymryd ac at y berthynas rhwng yr adran honno a Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.

Dylai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth a manylion cyswllt penodol i ysgolion sy'n berthnasol i'w hardal leol i gyd-fynd â'r canllawiau. Mae adrannau lle y dylid ceisio gwybodaeth leol wedi'u nodi.

## Adeiladu ar sail y gwaith presennol mewn ysgolion

Bwriad y canllawiau yw adeiladu ar sail yr arferion da presennol a galluogi ysgolion i adolygu eu gwaith. Mae strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hyrwyddo cydlyniant cymunedol wedi'i disgrifio yn y ddogfen strategaeth 'Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru'. Mae'r agenda ar gyfer atal eithafiaeth dreisgar yn cynnwys pum prif ddull sydd â'r amcan o ddelio â'r ffactorau y mae ymchwil yn awgrymu eu bod yn gallu peri i bobl gael eu tynnu i mewn i'r math hwn o weithgarwch troseddol. Mae'r rhain wedi'u hegluro ar dudalen 23.

# 2. Beth yw cydlyniant cymunedol?

**Mae'r adran hon yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:**

**Cyflwyniad**

**Diffiniad o gydlyniant cymunedol**

**Beth mae dysgwyr yn ei ddweud**

## Cyflwyniad

Pa rai o'r materion hyn sy'n ymwneud â Chydlyniant Cymunedol yn eich barn chi?

- Gweithwyr o Wlad Pwyl yn symud i gymunedau yn y DU i weithio mewn diwydiannau penodol gan ddod â'u teuluoedd.
- Ffoaduriaid o Somalia yn Abertawe, Caerdydd neu Wrecsam
- Pobl ifanc yn ymgynnull ar gorneli strydoedd
- Cyn-droseddwyr yn ceisio ailymsefydlu mewn cymunedau.
- Pobl ddigartref.
- Creu cartref cymunedol i oedolion sydd ag anawsterau dysgu.
- Grŵp o Sipsiwn a Theithwyr yn symud i fyw ar ddarn o dir diffaith mewn ardal.
- Teuluoedd Saesneg yn dod i ymgartrefu mewn cymunedau Cymraeg.
- Integreiddio pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl mewn cymunedau.
- Pobl hŷn ag anableddau sy'n gaeth i'w cartrefi.

Yr ateb yw …. **pob un** ohonynt.

Oherwydd hynny, nid oes dealltwriaeth gyffredin o ystyr cydlyniant cymunedol sy'n cael ei derbyn gan bawb. Mae'r term 'cymuned' ei hun yn cael ei ddefnyddio i ddibenion gwahanol - er enghraifft, i ddisgrifio'r bobl sy'n byw ochr yn ochr â'i gilydd mewn ardal breswyl (hyd yn oed cymdogaethau lle nad oes fawr o ryngweithio ymysg pobl) neu i gyfeirio at grwpiau penodol o bobl sy'n dod at ei gilydd oherwydd diddordebau a phrofiad cyffredin. Gall y diffiniad o gymuned gyfleu ymdeimlad o hunaniaethau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**Diffiniad o gydlyniant cymunedol:**

> "Cydlyniant Cymunedol yw'r hyn sydd ei angen ym mhob cymuned fel y gall gwahanol grwpiau o bobl gyd-dynnu.
> Un elfen allweddol sy'n cyfrannu at gydlyniant cymunedol yw integreiddio, ac mae'n rhaid i hyn ddigwydd fel y gall newydd-ddyfodiaid a phreswylwyr sydd yno'n barod addasu i'w gilydd."

Ar ei symlaf, defnyddir y term 'cydlyniant cymunedol' i ddisgrifio sut mae pawb mewn ardal ddaearyddol yn byw ochr yn ochr â'i gilydd gan ddangos cyd-ddealltwriaeth a pharch. Lle mae gan bob person gyfle cyfartal i gymryd rhan a mynediad cyfartal at wasanaethau. Mae'n ymwneud ag integreiddio, gweld gwerth mewn gwahaniaethau a chanolbwyntio ar y gwerthoedd cyffredin sy'n dod â phobl at ei gilydd. Mae'n cyfleu parodrwydd i dderbyn ac integreiddio a datblygu gwerthoedd cyffredin. Yn ogystal â hynny, mae'n ymwneud â helpu cymunedau i fod yn gydnerth pan fydd problemau a thensiynau'n codi.

**Mae dysgwyr mewn ysgolion wedi gwneud y datganiadau canlynol am gydlyniant cymunedol**

"Mae cydlyniant cymunedol yn bwysig am fod angen i chi adnabod y bobl o'ch cwmpas."

"Rwy'n hoffi'r gymuned yn fy ysgol gan ei bod yn debyg i jig-so. Os bydd un darn ar goll, ni fydd yn gyfan."

"Ystyr cydlyniant cymunedol yw cymysgu gwahanol ddiwylliannau. Mae'n helpu pobl i greu cysylltiad a gweld y pethau sy'n debyg rhyngddynt yn lle canolbwyntio ar wahaniaethau bach ac arwynebol."

"Mae'r grŵp yr wyf ynddo yng nghymuned yr ysgol yn fy helpu i weld sut mae pobl eraill mewn gwirionedd, yn lle rhagdybio pethau amdanyn nhw, fel beth allen nhw fod yn ei feddwl neu ei deimlo. Mae'n golygu na fyddwch yn barnu pobl cyn dod i'w hadnabod."

"Er mwyn cael cydlyniant cymunedol, rwy'n credu bod rhaid i ni dderbyn bod pawb yn unigolyn a bod pawb yn gyfartal hefyd. I fynd â'r maen i'r wal, rhaid i ni ddechrau yn yr ysgolion. Mae'r ysgol yn ein helpu i ddeall hyn, felly gallwn fynd ag ef i'r gymuned y tu allan ac i bob agwedd ar fywyd pob dydd."

# 3. Y cyd-destun Cymreig

**Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:**

**Cyflwyniad**

**Bygythiadau cenedlaethol**

**Y darlun lleol**

## Cyflwyniad

Mae gan Gymru dreftadaeth gyfoethog o amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig sy'n pontio'r canrifoedd.

Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y bydd Cymru'n parhau'n wlad lle gwelir gwerth mewn amrywiaeth a lle caiff pawb ei dderbyn beth bynnag fo'i hil, rhywedd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd/cred.

Mae angen i ni ystyried ym mha ffyrdd y mae holl aelodau ein cymdeithas yn teimlo eu bod yn perthyn, yn gallu cyfrannu a chael eu derbyn er mwyn gwneud ein cymdeithas yn fwy cydlynol. Ym mhob cymuned mae cyfoeth o wybodaeth a phrofiad a fydd, os caiff ei ddefnyddio'n greadigol, yn ysgogi lefelau uchel o gyfranogi ac y gellir ei sianelu i weithredu cadarnhaol ar y cyd.

Mae Cymru hefyd yn ddemocratiaeth sydd wedi'i seilio ar werthoedd penodol, gan gynnwys rhyddid barn a rhyddid i lefaru, cydraddoldeb gerbron y gyfraith, rhyddid crefyddol, amddiffyniad i leiafrifoedd, goddefgarwch, tegwch a chyfiawnder. Er y gallai pobl arddel credoau a safbwyntiau gwahanol, mae'n bwysig bod modd i'r gwerthoedd hyn gael eu rhannu, eu harfer a'u hamddiffyn gan wahanol grwpiau o bobl.

Mae'n hollbwysig creu cyfleoedd mewn cymdeithas lle mae newidiadau aml yn y boblogaeth i bobl ryngweithio a gweithio ar brosiectau wedi'u seilio ar werthoedd cyffredin. Mae pobl wedi ymfudo i Gymru o lawer rhan o'r byd ers canrifoedd, gan ddod â sgiliau, arbenigedd, diwylliannau a chredoau newydd. Gall newidiadau parhaus o'r fath gynnig heriau hefyd, a hynny'n cynnwys gwahanol fathau o wahaniaethu neu wrthdaro rhwng gwerthoedd, a gallant beri i rai pobl gael eu hynysu. Drwy roi cyfle i bobl ryngweithio a chyfrannu at eu cymuned, bydd pontydd yn cael eu codi a mythau'n cael eu chwalu a bydd ymdeimlad o gydberthyn yn datblygu.

Er hynny, mae'n amlwg bod angen deall y materion ehangach a allai effeithio ar gydlyniant cymunedol fel gweithgarwch eithafol treisgar a allai fod yn gysylltiedig ag ystod eang o faterion.

**Bygythiadau Cenedlaethol**

Yn ôl asesiad Llywodraeth y DU, mae'r DU yn darged â blaenoriaeth uchel i derfysgwyr sydd yn y wlad hon ac mewn gwledydd tramor. Gallai'r bygythiad posibl hwn godi o nifer o ffynonellau. Mae'n debygol y bydd terfysgwyr sy'n ochri ag Al Qa'ida yn dal yn fygythiad hyd y gellir rhagweld. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bygythiad oddi wrth wladolion Prydeinig a therfysgwyr wedi'u lleoli yn y DU yn ogystal â therfysgwyr sy'n wladolion tramor ac sydd yn cynllunio ymosodiadau o wledydd tramor.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhwydweithiau eithafol treisgar mewn cytrefi mawr fel Llundain, Manceinion Fwyaf a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Er hynny, mae arestiadau a gafwyd yn y Drenewydd, y Coed-duon, Hirwaun a Chaernarfon hefyd yn dangos bod terfysgwyr treisgar yn weithredol yng Nghymru.

Mae profiad yn awgrymu nad oes proffil nodweddiadol ar gyfer terfysgwyr treisgar yn y DU sydd dan ddylanwad Al Qa'ida. Gallant hanu o amryw o ardaloedd daearyddol, o wahanol gefndiroedd ethnig a diwylliannol a gallent gynnwys rhai sydd wedi troi at Islam. Mae natur y gefnogaeth i weithgarwch eithafol treisgar yn amrywiol ond gall gynnwys recriwtio eraill, a hynny drwy'r rhyngrwyd i raddau cynyddol; hyfforddi, codi arian a chaffael cymorth ar gyfer gweithgareddau terfysgol. Ymhlith y mathau o hyfforddiant y mae cyrsiau awyr agored i feithrin perthynas rhwng unigolion un ai yn y DU neu mewn gwersylloedd wedi'u rhedeg gan Al Qa'ida mewn gwledydd tramor.

Yn ogystal â'r bygythiad difrifol oddi wrth grwpiau sydd dan ddylanwad Al Qa'ida, mae grwpiau terfysgol o weriniaethwyr Gwyddelig sy'n gwrthwynebu proses heddwch Gogledd Iwerddon yn dal yn fygythiad i fuddiannau Prydeinig. Mae grwpiau eithafol

eraill sydd wedi'u lleoli yn y DU gan gynnwys cyrff hiliol a ffasgaidd a grwpiau asgell dde eithafol hefyd yn fygythiad i'r drefn gyhoeddus yng Nghymru, fel y mae'r cynnydd yn nifer y protestiadau gan y Welsh Defence League mewn dinasoedd ac ardaloedd eraill yng Nghymru wedi dangos. Yn aml, bydd y grwpiau hyn â'u bryd ar gynnal ymgyrchoedd treisgar yn erbyn unigolion, teuluoedd a chymunedau penodol ac, os na chânt eu hatal, gallent ysgogi ymddieithrio a dadrithiad ymysg cymunedau ethnig penodol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y ffordd at eithafiaeth dreisgar yr asgell dde yn dechrau'n aml pan fydd cyrff yn ceisio recriwtio pobl ifanc a hyd yn oed yn trefnu gweithgareddau hyfforddi penodol sy'n cynnwys anogaeth i ddefnyddio drylliau a chyllyll.

Gellir gweld arfarniad y Gwasanaeth Diogelwch o fygythiadau terfysgol y mae'r DU yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn: https://www.mi5.gov.uk/output/hafan.html

Mae rhestr o'r grwpiau neu fudiadau sydd o blaid defnyddio trais ac yn cwrdd â'r amodau ar gyfer eu gwahardd dan ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth yn: http://www.homeoffice.gov.uk/Cymraeg

> 'Fel gwlad, mae'n briodol i ni ymboeni ynghylch amddiffyn plant rhag i rywrai gamfanteisio arnynt mewn meysydd eraill. Mae angen i ni wneud yr un fath mewn cysylltiad ag eithafiaeth dreisgar. Yr eiliad hon, mae terfysgwyr yn targedu plant a phobl ifanc mewn modd trefnus a bwriadol yn y wlad hon. Maent yn radicaleiddio ac yn gwthio syniadau ar bobl ifanc sy'n agored i niwed ac yn eu paratoi i gyflawni gweithredoedd terfysgol. Eleni, rydym wedi gweld unigolion mor ifanc â 15 a 16 oed yn cael eu cysylltu â gweithgarwch sy'n ymwneud â therfysgaeth.'
>
> Araith gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Diogelwch yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas y Golygyddion, 5 Tachwedd 2007

## Y Darlun Lleol

Bydd yr her oddi wrth eithafiaeth dreisgar a gweithgareddau gan wahanol grwpiau'n amrywio ar draws y wlad.

Mae'n bwysig bod ysgolion yn deall ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion lleol penodol sy'n effeithio ar eu cymunedau. Bydd awdurdodau lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r heddlu'n gallu helpu ysgolion i gael trosolwg ar faterion lleol cyfredol.

Hefyd gall ysgolion helpu awdurdodau lleol a'r heddlu i ddeall tensiynau sy'n effeithio ar eu dysgwyr. Bydd ysgolion yn sylwi neu'n clywed am y teimladau mewn cymunedau, gallent fod yn dyst i ddigwyddiad, neu fod yn ymwybodol y gallai rhywbeth ddigwydd. Ym mhob sefyllfa mae gwybodaeth oddi wrth ysgolion yn bwysig er mwyn helpu'r awdurdod lleol neu'r heddlu i gael golwg ar y gymuned gyfan a thrwy hynny amddiffyn pobl ifanc rhag cael niwed neu achosi niwed.

**g - angen gwybodaeth leol**

# 4. Beth mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i atal eithafiaeth dreisgar

**Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:**


**Cyflwyniad**

**Rolau asiantaethau a phartneriaid lleol**

**Deall achosion terfysgaeth dreisgar**

**Ffactorau cyffredin sy'n dod i'r golwg ynghylch y broses radicaleiddio**

**Beth allai achosi i berson ifanc fod yn agored i'w radicaleiddio**

**Amddiffyn rhai yn ein hysgolion a'n cymunedau sy'n agored i niwed ac yn llai abl i wrthsefyll**

**Pwyntiau allweddol**


## Cyflwyniad

Mae gan Lywodraeth y DU amrywiaeth o strategaethau gwrthderfysgaeth sydd â'r bwriad o atal pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu gefnogi eithafiaeth dreisgar.

Mae'r strategaethau hyn wedi'u cynllunio i ddelio â'r ffactorau y mae ymchwil yn awgrymu y gallant achosi i bobl gael eu tynnu i mewn i eithafiaeth dreisgar sy'n gysylltiedig ag Al Qa'ida. Mae'r ffactorau hyn yn berthnasol hefyd i gamau i atal mathau eraill o eithafiaeth dreisgar.

Y prif strategaethau sydd wedi'u mabwysiadu yw:

- **herio'r** ideoleg eithafol dreisgar a chefnogi lleisiau prif ffrwd
- **torri ar draws** y rheini sy'n hyrwyddo eithafiaeth dreisgar a rhoi cymorth i sefydliadau lle gallent fod yn weithgar
- **rhoi cymorth** i unigolion sy'n cael eu targedu a'u recriwtio i achos eithafiaeth dreisgar
- cynyddu gallu cymunedau i **wrthsefyll** eithafiaeth dreisgar
- **ymateb i gwynion**, rhai gwirioneddol a chanfyddedig, y mae ideolegwyr yn camfanteisio arnynt. Gall y rhain ddeillio o faterion cenedlaethol neu ryngwladol - er enghraifft, rhai sy'n ymwneud â pholisi tramor, neu ganfyddiadau o gamliwio gan y cyfryngau; neu fod wedi'u seilio ar ganfyddiadau lleol o anghydraddoldeb neu brofiadau o hiliaeth neu wrthdaro cymunedol.

Mae gweithgareddau yn digwydd ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol dan bob un o'r dulliau hyn, mewn partneriaeth â chyrff cymunedol. Ar y lefel leol, mae partneriaid statudol yn gweithio drwy'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a chydag ystod o gyrff cymunedol sy'n aml yn y sefyllfa orau i helpu pobl ifanc sy'n agored i niwed ac sydd mewn gwell sefyllfa i herio ideoleg eithafiaeth dreisgar o unrhyw fath. Mae llawer o'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio ar weithio gyda phobl ifanc.

Yn ogystal â'r strategaethau hyn, mae 'Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru' yn egluro sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio mewn partneriaeth

â chymunedau Mwslimaidd, awdurdodau lleol, yr heddlu a Llywodraeth y DU i atal eithafiaeth dreisgar.

Hefyd, mae amryw o bolisïau, yn lleol ac yn genedlaethol, i fynd i'r afael â hiliaeth ac anghydraddoldebau ac i hyrwyddo cydlyniant a chysylltiadau rhyng-ffydd. Ymhlith y rhain mae gweithgareddau i atal pobl ifanc rhag ymuno â chyrff y dde eithaf a chyrff treisgar eraill, llawer ohonynt dan adain yr ymdrech i atal troseddau casineb. Mae hyn i gyd wedi'i ategu gan Gynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n egluro'r ymrwymiad allweddol i wireddu gweledigaeth "Cymru'n Un" sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb gan gydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth.

http://wales.gov.uk/topics/equality/publications/sesfull/?skip=1&lang=cy

> 'Mae cymdeithas sifil gryf yn un nad yw'n ofni trafod yn feirniadol ond sydd â phobl a chanddynt y sgiliau a'r agweddau meddwl angenrheidiol i ymgymryd â hyn yn ddi-drais.'
>
> Yr Athro Lynn Davies, 'Educating Against Extremism'

## Rolau asiantaethau a phartneriaid lleol

Mae *Ymateb Partneriaeth Cymru Gyfan i Atal Terfysgaeth ac Eithafiaeth Dreisgar: Cynllun Cyflawni* yn tynnu sylw at yr angen i bartneriaid lleol adolygu cynnydd a hunanasesu effeithiolrwydd eu gweithgarwch i fynd i'r afael ag eithafiaeth dreisgar. Mae'n annog ardaloedd lleol i roi cynllun gweithredu priodol a chymesur ar waith i atal eithafiaeth dreisgar. Bydd y rhain yn cynnwys amryw o bartneriaid dan arweiniad yr awdurdod lleol, yr heddlu ac asiantaethau statudol a gwirfoddol eraill a bydd cymunedau lleol yn cymryd rhan ynddynt. Bydd yr ystod o weithgareddau'n amrywio yn ôl maint yr heriau yn yr ardal leol.

Mae'r 22 o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru wedi cael eu hannog i fabwysiadu fframwaith hunanasesu sy'n ceisio monitro eu cynnydd wrth feithrin y gallu i wrthsefyll

eithafiaeth dreisgar, gan gynnwys y graddau y maent yn gweithio mewn partneriaeth.

Mae ysgolion mewn lle da i wybod beth sy'n mynd ymlaen yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, drwy'r cysylltiadau y maent wedi'u datblygu â dysgwyr, teuluoedd, cyflogwyr a chyrff cymunedol. Byddant yn ymwybodol o'r tensiynau a'r pryderon y mae cymunedau'n eu hwynebu, ac o'r digwyddiadau a gweithgareddau a allai achosi pryderon. Felly dylai ysgolion geisio gweithio mewn partneriaeth yn lleol ynghylch atal eithafiaeth dreisgar a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Mae'n bwysig cael cysylltiadau â Thimau Plismona Cymdogaeth, ac un swyddog penodol os oes modd, er mwyn rhannu amryw o fathau o wybodaeth. Gall ysgolion hefyd gael cymorth a chyngor gan awdurdodau lleol, yr heddlu a phartneriaid eraill ar faterion sy'n ymwneud ag eithafiaeth ac ymgysylltu â chyrff cymunedol lleol.

Mae'n bwysig bod yr **holl** staff yn gwybod ac yn deall beth i'w wneud os ydynt yn pryderu ynghylch person ifanc y maent yn credu ei fod mewn perygl. Argymhellir bod y swyddog Amddiffyn Plant yn cael ei ddynodi i ymdrin ag unrhyw bryderon a godir ynghylch dysgwyr unigol.

## g - angen gwybodaeth leol

### Deall achosion eithafiaeth dreisgar

Mae gennym gorff cynyddol o wybodaeth am y llwybr a ddilynwyd gan y rheini sydd wedi'u tynnu i mewn i eithafiaeth dreisgar sy'n gysylltiedig ag Al Qa'ida o ymchwil ac o hanesion achos y rheini sydd wedi cyflawni neu wedi ceisio cyflawni gweithredoedd terfysgol.

Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r llwybr hwn, sef y broses o 'radicaleiddio', yn un syth neu ragweladwy. Gall y cyfnod a gymerir amrywio'n fawr o ychydig wythnosau i flynyddoedd ac nid yw'r llwybr radicaleiddio'n arwain at drais ym mhob achos.

Yn achos rhai, ond nid y cwbl, o'r rheini sydd wedi'u tynnu i mewn i eithafiaeth dreisgar, roedd y cyfnod pontio at ddysgu ar ôl yr ysgol uwchradd yn un tyngedfennol. Er hynny, mewn llawer achos, yng nghyfnod oedran yr ysgol uwchradd y dechreuodd y broses radicaleiddio a arweiniodd yn y pen draw at eu cymell i ddewis cyflawni gweithredoedd treisgar neu droseddol.

**Ffactorau cyffredin sy'n dod i'r golwg ynghylch y broses radicaleiddio:**

**Cyswllt â recriwtwyr**

Er bod ambell achos wedi'i gofnodi o rai sydd wedi'u radicaleiddio eu hunain, bydd pobl ifanc yn cael eu denu i fudiadau eithafol treisgar dan ddylanwad pobl eraill gan fwyaf. Gallai'r cyswllt dechreuol fod drwy gyfoedion, brodyr neu chwiorydd hŷn, aelodau eraill o'r teulu neu rywun arall y maent yn ei adnabod. Gall y broses radicaleiddio fod yn un gymdeithasol yn aml.

Mae rhyngweithio'n fwyaf tebygol o ddigwydd y tu allan i'r ysgol, yn aml mewn amgylcheddau heb oruchwyliaeth fel campfeydd neu gaffis, neu mewn cartrefi preifat.

**Mynediad at ddeunydd eithafol treisgar**

Cafwyd mynediad ato'n aml yn y gorffennol drwy rannu taflenni a chysylltiadau lleol ond mae tystiolaeth yn awgrymu bod y rhyngrwyd yn chwarae rhan bwysicach o lawer bellach ochr yn ochr â hyn - ceir mynediad at fideos eithafol treisgar ac at bropaganda drwy wefannau a bydd pobl yn dod i gysylltiad a digwyddiadau'n cael eu cynllunio drwy wefannau rhwydweithio cymdeithasol.

**Defnyddio naratifau eithafol**

Bydd eithafwyr treisgar o bob credo'n denu pobl at eu hachos fel arfer drwy ddefnyddio naratif perswadiol:

- i egluro pam yr wyf fi/fy nheulu/fy nghymuned yn profi anfantais/dioddefaint/diffyg parch e.e. canfyddiad o erlid, anghydraddoldeb, gorthrwm gan ddosbarth llywodraethol, gwleidyddiaeth genedlaethol neu ryngwladol

- i egluro pam nad yw atebion confensiynol y teulu/ysgol/cymuned yn datrys y cwynion sylfaenol e.e. ‘nid yw’r gyfraith yn ein hamddiffyn, mae fy nheulu wedi’i ynysu oddi wrth “fywyd go iawn” ac nid ydynt yn gwybod sut mae hi ar bobl ifanc’
- ac wedyn i gyfiawnhau rhwymedïau treisgar neu droseddol - un ai mewn sefyllfaoedd lleol, neu rai cenedlaethol e.e. ‘mae angen i ni orfodi newid barn, yr unig ffordd i sicrhau newid yw drwy weithredu’ neu ‘mae angen i ni ddial am y cam yr ydym wedi’i gael’
- weithiau bydd yr achos yn rhan o fudiad rhyngwladol ehangach a allai hawlio sail wleidyddol, ideolegol neu ddiwinyddol, pa mor ystumiedig bynnag y gallai fod.

**Gall naratifau eithafol ddylanwadu ar farn i wahanol raddau gan:**

- ysbrydoli newydd-ddyfodiaid i’r achos
- helpu i gadarnhau credoau’r rheini sydd â barn eithafol eisoes
- darbwyllo pobl eraill bod eu hachos yn un dilys.

**Beth allai achosi i berson ifanc fod yn ‘agored’ i’w radicaleiddio?**

Mae mwy nag un proffil ar gyfer eithafwr treisgar a mwy nag un math o lwybr radicaleiddio, ond mae tystiolaeth o achosion blaenorol yn dangos bod amryw o ffactorau a allai achosi i berson ifanc fod yn agored i’r perygl ac yn fwy tebygol o gael ei ddenu i lwybr radicaleiddio. Mae’n bwysig nodi na fydd presenoldeb un neu ragor o’r ffactorau hyn yn arwain yn anochel at radicaleiddio neu gysylltiad â gweithgarwch treisiol ac y bydd angen ystyried pob achos ar ei ben ei hun.

Er hynny, mae’n ymddangos bod y penderfyniad gan berson ifanc i gymryd rhan mewn eithafiaeth dreisgar yn un:

- a allai ddechrau drwy chwilio am atebion i gwestiynau ynghylch hunaniaeth, ffydd a pherthyn
- a allai gael ei ysgogi gan yr awydd am ‘antur’ a chyffro
- a allai gael ei ysgogi gan awydd am fwy o hunan-barch gan yr unigolyn ac am hybu ei statws ymysg ei gyfoedion

- sy’n debygol o olygu uniaethu ag unigolyn carismataidd ac atyniad i grŵp sy’n gallu cynnig hunaniaeth, rhwydwaith cymdeithasol a chefnogaeth
- sy’n debygol o gael ei gymell gan ymdeimlad o fod wedi cael cam a all gael ei ysgogi gan brofiadau personol o hiliaeth, gwahaniaethu, iselhau, ymddieithrio ac anghyfiawnder.

**Gwersi o hanesion achos diweddar am ffactorau a allai wneud pobl ifanc yn agored i gamfanteisio gan eithafwyr treisgar:**

**Argyfwng hunaniaeth**
Mae rhai yn eu glasoed sy’n ymchwilio i faterion sy’n ymwneud â hunaniaeth yn gallu teimlo’n bell oddi wrth dreftadaeth ddiwylliannol a chrefyddol eu rhieni a hefyd yn anfodlon ar eu lle yn y gymdeithas o’u cwmpas. Gall syniadau eithafol helpu i roi ymdeimlad o bwrpas neu o berthyn.

**Argyfwng personol**
Gallai hyn gynnwys tensiynau sylweddol o fewn y teulu, er enghraifft, a’r rheini’n creu ymdeimlad yn y person ifanc o fod heb gysylltiad â’r elfennau sicr traddodiadol mewn bywyd teuluol.

**Amgylchiadau personol**
Byddai’r profiad o ymfudo, tensiynau lleol neu ddigwyddiadau sy’n effeithio ar deuluoedd yn y wlad y daethant ohoni’n gallu cyfrannu at ymddieithrio oddi wrth werthoedd y DU a phenderfyniad i niweidio symbolau’r gymuned neu’r wladwriaeth.

**Heb fod mewn Addysg na Chyflogaeth**
Gallai pobl ifanc ganfod bod eu dyheadau am yrfa a ffordd o fyw benodol yn cael eu tanseilio oherwydd cyflawniadau cyfyngedig yn yr ysgol neu ragolygon cyfyngedig am gyflogaeth. Gall hyn droi’n ymwrthod cyffredinol â bywyd dinesig ac arwain at arddel trais fel gweithred symbolaidd.

**Troseddolrwydd**
Efallai y bydd person ifanc wedi bod yn troseddu mewn grŵp neu’n gysylltiedig weithiau â throseddu cyfundrefnol ac yn cael ei ddenu i gymryd rhan mewn gweithgareddau eithafol, a allai fod yn droseddol.

Mae rhywfaint o debygrwydd rhwng y ffactorau hyn a'r ffactorau y mae ymchwilwyr wedi canfod eu bod yn debygol o gyfrannu at radicaleiddio pobl ifanc a pheri iddynt gael eu tynnu i mewn i grŵp eithafiaeth dreisgar:

- ideoleg a gwleidyddiaeth
- profocio a dicter
- angen am amddiffyniad
- chwilio am gyffro a gwrthdaro
- diddordeb mewn trais, arfau a gwisgoedd swyddogol
- gwrthryfel yr ifanc
- chwilio am rai i gymryd lle'r teulu a'r tad
- chwilio am ffrindiau a chymuned
- chwilio am statws a hunaniaeth.

**Mae amddiffyn aelodau o'n hysgolion a'n cymunedau sy'n agored i niwed ac yn llai abl i wrthsefyll yn gyfrifoldeb allweddol.**

Mae pobl ifanc yn agored i ddylanwadau newydd a gallent fod yn agored i'r perygl o fabwysiadu mathau o ymddygiad a allai fod yn beryglus wrth iddynt fynd drwy eu glasoed a dechrau ymchwilio i syniadau a materion sy'n ymwneud â'u hunaniaeth.

Mae'r ystod o risgiau'n cynnwys:

- camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
- dylanwad cyfoedion
- dylanwad pobl hŷn
- dylanwad drwy'r rhyngrwyd.

Dylai systemau cymorth i ddysgwyr mewn ysgolion asesu'r graddau y maent yn 'agored' i gael eu radicaleiddio gan eithafwyr treisgar yng nghyd-destun ystod eang o risgiau i ddysgwyr:

- Camddefnyddio sylweddau ac alcohol.
- Troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Bwlio, yn cynnwys seiberfwlio.
- Trais domestig ac amryw o densiynau teuluol.
- Materion sy'n ymwneud â grwpiau stryd neu gangiau mewn ardaloedd.

Rhaid i ysgolion ddilyn gweithdrefnau diogelu plant a defnyddio'r Fframwaith Asesu Cyffredin fel offeryn i'w helpu i asesu'r graddau y mae dysgwyr yn agored i niwed ac i rannu gwybodaeth yn briodol â phartneriaid lleol. Mae'r rhan a gymerir gan yr heddlu mewn paneli aml-asiantaeth gydag ysgolion yn gallu cyfrannu'n helaeth at atal amryw o fathau o ymddygiad peryglus a niwed posibl.

Anogir ysgolion hefyd i gydweithio â'r heddlu lleol ynghylch ymwybyddiaeth o faterion a thensiynau mewn cymunedau lleol sydd hefyd yn ffactorau a allai gyfrannu at radicaleiddio.

## Pwyntiau allweddol

- **Mae eithafwyr yn defnyddio naratifau perswadiol i ddenu pobl at eu hachos gan eu seilio ar ddehongliad penodol neu gamliwio ar hanes, gwleidyddiaeth neu grefydd.** Gall addysg chwarae rhan bwysig drwy annog pobl ifanc i herio syniadau, meddwl drostynt eu hunain a derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Mae awgrymiadau yn yr adran ar y cwricwlwm ac addysgu yn y ddogfen hon ar sut i wneud hyn.
- **Wrth ystyried y ffactorau achosol sy'n debygol o beri i unigolyn ifanc fod yn rhan o eithafiaeth dreisgar, nid oes un proffil amlwg, na dangosydd sy'n awgrymu pryd y mae unigolyn yn debyg o droi at arddel trais i gefnogi syniadau eithafol.** Y man cychwyn i ysgolion, yn yr un modd â phob math o ddysgu, yw adnabod eu dysgwyr, gwrando ac ymateb i'w hanghenion newidiol. Os yw aelodau staff yn pryderu ynghylch newid mewn patrymau ymddygiad, dylent ofyn am gyngor gan y pennaeth/swyddog amddiffyn plant dynodedig ac arfer eu barn broffesiynol i ystyried a allai person ifanc fod mewn perygl. Mae cyngor ymarferol ar hyn yn yr adran ar ymyrryd a chefnogi.

- **Bydd y peryglon penodol i ddysgwyr ac i gymunedau ysgolion oddi wrth grwpiau eithafiaeth dreisgar yn amrywio ar draws y wlad.** Dylai ysgolion ofyn am gyngor gan eu hawdurdodau lleol a'r heddlu (drwy swyddog cymuned ysgol yr heddlu neu swyddog heddlu'r gymdogaeth) ar y cyd-destun lleol a sicrhau bod mecanweithiau ar waith i gael gwybod am faterion lleol sy'n codi.
- Bydd **amryw o weithgareddau mewn ardaloedd lleol** sydd â'r amcan o atal eithafiaeth dreisgar a allai fod yn berthnasol i ysgolion neu i'r gymuned ysgol. Gall awdurdodau lleol helpu ysgolion penodol i ddechrau gweithio mewn partneriaeth yn lleol ac i ddeall pa adnoddau a phrosiectau sydd ar gael yn lleol.

Dolenni at adnoddau ychwanegol:

- Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth: Gwybodaeth am y bygythiad presennol oddi wrth derfysgwyr, http://www.homeoffice.gov.uk/Cymraeg

# 5. Ysgolion a'u cymunedau - dulliau effeithiol o ymdrin â chydlyniant cymunedol

**Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:**

**Cyflwyniad**

**Nid yw cydlyniant cymunedol**

**I ysgolion mae cydlyniant cymunedol yn golygu**

**I athrawon mae hyn yn golygu**

**I ddysgwyr mae hyn yn golygu**

## Cyflwyniad

Mae cydlyniant cymunedol yn galw am sylw gan y gymuned ysgol gyfan, nid gan athrawon a dysgwyr yn unig, ond gan rieni, gofalwyr, llywodraethwyr, ymwelwyr ac unrhyw oedolyn sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

## Nid yw Cydlyniant Cymunedol:

- yn gyfrifoldeb i un maes pwnc;
- yn gyfres o gysyniadau a thopigau ar wahân sydd wedi'u cyfyngu i'r ystafell ddosbarth;
- yn gyfrifoldeb i un athro neu athrawes yn yr ysgol yn unig;
- yn golygu cyfleu set o atebion i ddysgwyr.

Er mwyn i gydlyniant cymunedol fod yn effeithiol mae angen ei wneud yn rhan annatod o'r cwricwlwm drwyddo draw a'i gynnwys ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.
Rhaid bod yn ymwybodol o beth mae hyn yn ei olygu:

## I ddysgwyr mae hyn yn golygu:

- cael eu hannog i ofalu amdanynt eu hunain, am ei gilydd ac am aelodau eraill o'u cymuned ehangach
- parchu eu hunain, parchu eraill a dathlu amrywiaeth
- deall eu rôl yn y gymuned ysgol, y gymuned leol a'r gymuned fyd-eang
- darganfod ym mhob peth y maent yn ei astudio fod cysylltiadau â'r "darlun mawr" yn y byd ehangach
- dysgu sgiliau ac ymchwilio i faterion mewn ffyrdd a fydd yn eu galluogi i feddwl drostynt eu hunain a phenderfynu sut i weithredu er mwyn sicrhau cydlyniant cymunedol.

## I athrawon mae hyn yn golygu:

- cyfrannu at agwedd ysgol gyfan at ddatblygu cydlyniant cymunedol
- paratoi dysgwyr ar gyfer yr heriau newydd a fydd yn rhan o'u dyfodol fel byw mewn cymuned fwy amrywiol
- datblygu persbectif byd-eang dysgwyr er mwyn iddynt adnabod natur gymhleth a rhyng-gysylltiedig y byd o'u cwmpas
- mabwysiadu dull o addysgu a dysgu a fydd yn galluogi dysgwyr i ymchwilio i faterion dadleuol gyda'r lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth, mewn modd cytbwys a phroffesiynol
- meithrin y sgiliau a fydd yn paratoi dysgwyr i feddwl yn feirniadol, i feddwl yn ochrol, i gysylltu syniadau a chysyniadau, ac i wneud penderfyniadau gwybodus.

## I ysgolion mae cydlyniant cymunedol yn golygu:

- bod yn rhan o'r broses o hyrwyddo canlyniadau 'Gweithredu'r Hawliau' i bawb, yn enwedig cydraddoldebau a chydlyniant cymunedol
- bod yn rhan o ethos, addysgeg a threfniadaeth yr ysgol a'i gwaith mewn partneriaeth sy'n creu cymuned gydnerth a chydlynus
- bod yn rhan annatod o'r ffordd o drefnu a rheoli'r ysgol fel partner yn y gymuned
- rhywbeth y mae angen i ysgolion ei ddatblygu yn ogystal â'i addysgu
- rhywbeth y mae angen ei adlewyrchu yn y Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion
- rhywbeth y bydd Estyn yn ymchwilio iddo fel rhan o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin; cyfeirir droeon at gyfraniad y gymuned.

# 6. Cyngor ac arweiniad i ysgolion

**Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:**

**Cymorth cyffredinol, cymorth wedi'i dargedu a chymorth unigol**

**Is-adrannau i Bennod 6**

## Cyflwyniad

Dylai ysgolion gyfrannu at gydlyniant cymunedol gan ddefnyddio dull haenog ar dair lefel, yn debyg i'r modd y maent yn cyfrannu at atal mathau eraill o ymddygiad peryglus:




**Haen 1: Cymorth i unigolion**
- Darparu prosesau cymorth effeithiol i ddysgwyr
- Hybu ymwybyddiaeth staff o faterion allweddol
- Creu cysylltiadau da â theuluoedd, yr heddlu a phartneriaid eraill er mwyn rhannu gwybodaeth
- Cael mynediad at gymorth allanol gan gyrff statudol neu wirfoddol

**Haen 2: Gweithgareddau wedi'u targedu**
- Defnyddio cyfleoedd y cwricwlwm i herio naratifau eithafol
- Caniatáu cyfle i ddadlau a meithrin hyder yn y staff i drafod materion dadleuol
- Deall materion a thensiynau lleol gyda chymorth gan yr awdurdod lleol a'r heddlu
- Datblygu rhwydwaith o gysylltiadau cymunedol a chysylltiadau â mentoriaid a rhai sy'n esiampl

**Haen 3: Camau gweithredu cyffredinol**
- Sefydlu agwedd yr ysgol at Addysg sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned
- Defnyddio'r cwricwlwm i sicrhau bod materion sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol yn cael sylw
- Hyrwyddo Gweithredu'r Hawliau, cydlyniant cymunedol, cydraddoldebau a lles
- Sefydlu gweithio aml-asiantaeth i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael cymorth
- Hybu cyfranogi gan ddysgwyr a llais y dysgwr
- Cysylltiadau â theuluoedd a chymunedau lleol

Yn yr is-adrannau sy'n dilyn, cynigir cyngor i ysgolion a sefydliadau addysgol eraill o dan y penawdau canlynol:

- Arweinyddiaeth (Is-adran 6.1)
- Gweithio gydag Eraill (Is-adran 6.2)
- Y Cwricwlwm ac Addysgu (Is-adran 6.3)
- Ymyrryd a Chefnogi (Is-adran 6.4)
- Rheoli Risg ac Ymateb i Ddigwyddiadau (Is-adran 6.5)

Mae'r cyngor a gynigir yn tynnu sylw at y meysydd y mae angen i ysgolion eu hystyried yn ofalus a chymryd camau priodol yn eu cylch yn ôl cyd-destun yr ysgol a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Bydd angen i arweinwyr ysgol ystyried pwy sy'n gyfrifol am arwain ar ddatblygu'r gwahanol agweddau ar gydlyniant cymunedol.
Ar ddiwedd pob is-adran, tynnir sylw at gamau gweithredu y gallai fod angen i'r ysgol eu cymryd ac at y berthynas rhwng yr adran honno a Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.

# 6.1 Arweinyddiaeth

**Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:**

**Cyflwyniad**

**Datblygu cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar mewn ysgolion**

**Hyrwyddo gwerthoedd craidd cymdeithas ddemocrataidd a modelu'r broses**

**Meithrin dealltwriaeth staff o'u rolau a'u hyder yn eu sgiliau**

## Cyflwyniad

Mae'r is-adran hon yn disgrifio sut mae staff mewn ysgolion yn cyfrannu at ddatblygu cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar drwy:

- eu rôl arweinyddiaeth o fewn yr ysgol a'i chymuned
- y gwerthoedd a gaiff eu hyrwyddo gan yr ysgol a'r cwricwlwm yn gyffredinol

Mae strategaethau arweinyddiaeth neilltuol a gwerthoedd penodol sy'n galluogi ysgol i chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu cydlyniant cymunedol. Dylai'r holl bartneriaid sy'n ymwneud ag addysg plant o fewn y gymuned (dysgwyr, rhieni, arweinwyr ysgol, llywodraethwyr a phartneriaid eraill yn y gymuned) gyfrannu at ffurfio'r strategaethau a'r gwerthoedd hyn a'u deall. Dylai llywodraethwyr, arweinwyr ysgol a'r staff ar bob lefel fod â rhan mewn datblygu, deall a rhannu'r strategaethau a'r sgiliau hyn.

### 6.1.1 Wrth ddatblygu cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar mae angen i arweinwyr ysgol wneud y canlynol:

**a. Datblygu gweledigaeth ac ethos clir**

Dylai hyn fod wedi'i seilio ar weledigaeth gyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yn 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau' (2004) a chamau i hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- adolygu datganiadau o werthoedd i sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl ddysgwyr
- adolygu prosesau ar gyfer darparu'r cwricwlwm a chyfranogi gan ddysgwyr a chymorth ar eu cyfer
- adolygu'r modd y mae'r ysgol yn hyrwyddo hawliau dynol www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/default.aspx

### b. Hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn addysg fyd-eang drwy'r cwricwlwm

Mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) mewn ysgolion yn rhoi fframwaith clir ar gyfer hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang.

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- adolygu'r modd y mae'r ysgol yn cyflwyno ADCDF. Gweler ADCDF: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion (2008) http://www.esd-wales.org.uk/cymraeg/welcome.asp
- adolygu sefyllfa'r ysgol mewn cysylltiad â'r model a ddisgrifiwyd yn y datganiad sefyllfa ar gyfer ADCDF a gyhoeddwyd gan Estyn (2006) http://www.estyn.gov.uk/cy_home.asp
- adolygu'r ymgysylltu â'r Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg (DRhA) ar draws y cwricwlwm drwy ddefnyddio'r offeryn hunanasesu DRhA a ddosbarthwyd i ysgolion ym mis Hydref 2010 http://www.britishcouncil.org/cy/wales.htm
- cysylltu â chymunedau eraill yn genedlaethol, ar draws Ewrop ac yn rhyngwladol. Mae cymorth a chyngor ar gael gan y canlynol:
  - Cynghorwyr yr Awdurdod Lleol ar DRhA a/neu ADCDF
  - NIACE Dysgu Cymru http://www.niacedc.org.uk/cy
  - y Cyngor Prydeinig http://www.britishcouncil.org/cy/wales.htm

### c. Cydnabod a diwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol yr holl ddysgwyr a'u hanghenion o ran dysgu ychwanegol

Sicrhau bod anghenion yr holl ddysgwyr o safbwynt cymdeithasol, emosiynol a dysgu ychwanegol wedi'u diwallu drwy ddarparu cwricwlwm priodol a bod yr ysgol yn hollol gynhwysol.

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddangos llwyddiant drwy ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol. Mae'r rhaglen Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu yn cynnig fframwaith i hyrwyddo sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn benodol ac yn cynnwys llwybrau datblygu ar gyfer pob grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Mae'r adnoddau ar gael yn ddwyieithog.

Gellir lawrlwytho rhaglenni ar wahân ar gyfer addysg Gynradd ac Uwchradd o: www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/pseseal/secondaryresources/?skip=1&lang=cy

- darparu gwasanaethau ataliol i ddysgwyr sy'n hybu lles emosiynol dysgwyr ac yn eu gwneud yn fwy abl i wrthsefyll. 'Meddwl yn Gadarnhaol: Iechyd a Lles Emosiynol Mewn Ysgolion a Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar'. http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/thinkingpositively/?skip=1&lang=cy
- adnabod a dathlu cynnydd gan ddysgwyr o ran sgiliau personol a chymdeithasol a chofnodi eu cyflawniadau yng nghyd-destun datblygu 'Sgiliau a Thueddiadau Cymdeithasol ac Emosiynol'. Gweler 'Dangos Llwyddiant: llawlyfr i ymarferwyr.' http://demonstratingsuccess.co.uk/
- cynorthwyo dysgwyr y mae'r Gymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, a rhoi cymorth penodol i'w staff addysgu, i symud rhwystrau rhag dysgu effeithiol, gan greu modd i integreiddio'r dysgwyr a chyrraedd y lefel uchaf posibl yn y Gymraeg/Saesneg. Sicrhau na fydd y broses o ddysgu iaith ac integreiddio'n peryglu hunaniaeth ddiwylliannol y dysgwyr nac yn arwain at golli iaith y cartref
- cynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu Ychwanegol, gan annog ysgolion a'u partneriaid i gynnig amgylcheddau cynhwysol a chefnogol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o ran cyfleoedd addysgol a mynediad at addysg; diogelu disgyblion sy'n agored i niwed; canolbwyntio ar wella cyflawniad yr holl ddysgwyr a pheri iddynt gymryd mwy o ran yn eu hysgolion a'u cymunedau. Gweler 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/2463797/?skip=1&lang=cy

**d. Hyrwyddo diwylliant cyffredin sy'n agored ac yn amryfath yn yr ysgol a chyda'r gymuned ehangach, beth bynnag yw statws penodol, lleoliad neu gysylltiad crefyddol yr ysgol**

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- ymchwilio i amrywiaeth a gwerthoedd a rennir rhwng ac oddi mewn i gymunedau a'u hyrwyddo drwy'r cwricwlwm, drwy fywyd yr ysgol, ac arferion gweithio'r ysgol
- cynnig cyfleoedd fel bod Islamoffobia, gwrth-Semitiaeth a rhagfarnau eraill yn cael eu herio drwy wasanaethau boreol a'r cwricwlwm ffurfiol
- darparu mynediad i fforymau lle gall pobl ifanc fynegi eu barn am faterion cymunedol e.e. Seneddau Ieuenctid, y Ddraig Ffynci.

'Mae ar bobl ifanc eisiau mwy o leoedd diogel i drafod materion sy'n ymwneud â therfysgaeth ac eithafiaeth dreisgar. Mae angen i ni hyfforddi athrawon a gweithwyr ieuenctid ynghylch sut i ddarparu'r trafodaethau hyn er mwyn creu'r amgylchedd y mae ei angen ar gyfer dadl drefnus.'

**Rob, Clews, Prosiect Safe Space,**
**Senedd Ieuenctid y DU, 2009**

**Adnoddau**

- 'Ydyn ni'n cwrdd â'ch safonau?' Pecyn Hunan-Asesu Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc. Mai 2007. http://www.funkydragon.org/cy/index.asp
- 'Gwrando a Dysgu … y Stori Iawn.' http://www.childcom.org.uk/uploads/publications/207.pdf

**‘Gwrando a Dysgu ... y Stori Iawn’**

Mae **Comisiynydd Plant Cymru** wedi bod yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru i ganfod beth sy’n helpu plant i gael profiad dysgu cadarnhaol.

Mae’r adnodd hwn - sydd wedi’i anelu at bawb yng Nghymru sy’n gweithio yn y sector addysg - yn cynnwys negeseuon oddi wrth blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru am eu profiad dysgu ac mae’n llawn gwybodaeth ddefnyddiol am ddatblygiadau polisi a mentrau cyfredol ynghylch cyfranogiad plant. Mae’r adnodd, sydd ar gael i’w lawrlwytho, yn cynnwys canfyddiadau’r gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Mae ‘Naw Neges Allweddol’ oddi wrth blant a phobl ifanc ar gyfer pawb sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

### e. Hyrwyddo ymdeimlad cryf o berthyn, gofal cymunedol a rennir a chyfrifoldeb dros bobl eraill

Sicrhau bod dysgwyr a allai fod wedi’u hynysu neu deuluoedd lle y gallai iaith neu ddiwylliant fod yn rhwystr yn cael cymorth. Bydd y Gwasanaeth Ieithoedd Lleiafrifol Ethnig a Chyrhaeddiad (EMLAS) yn darparu hyfforddiant i athrawon, cynlluniau gwersi ar y cyd ac addysgu mewn partneriaeth. Yn yr enghreifftiau gorau mae EMLAS yn meithrin cysylltiadau ag arweinwyr dylanwadol mewn cymunedau lleiafrifol ethnig fel yr imam lleol, er mwyn dod i gyfaddawd ynghylch pethau fel gwisg ysgol ac amseroedd gweddi. Mae angen bod yn ymwybodol o’r gwahaniaeth mewn credoau diwylliannol rhwng gwahanol enwadau o fewn crefyddau. Er enghraifft, gallai tensiynau godi ynghylch trefniadau ar gyfer addoli a darparu’r cwricwlwm.

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- canolbwyntio cymorth ar y rheini sydd mewn perygl o gael eu hynysu fel disgyblion sydd â ffobia am fynd i’r ysgol, Sipsiwn a Theithwyr, Ceiswyr Lloches, Ffoaduriaid.
- ymgysylltu â’r Gwasanaeth Ieithoedd Lleiafrifol Ethnig a Chyrhaeddiad (EMLAS) sy’n gweithio gydag ysgolion i gyflwyno’r Gymraeg neu’r Saesneg fel iaith ychwanegol i blant gweithwyr mudol, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

- ceisio cymorth gan y Gwasanaeth Addysg Sipsiwn a Theithwyr (GTES) mewn ardaloedd awdurdodau lleol er mwyn cynorthwyo plant i Sipsiwn a Theithwyr. Os bydd anghenion gan blant Sipsiwn a Theithwyr mewn cysylltiad â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol hefyd (gan fod hynny'n wir yn aml am Roma o Ewrop), byddant hefyd yn gymwys i gael cymorth gan EMLAS. Mae'r cymorth gan EMLAS a GTES yn cael ei ariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â rhywfaint o gyllid ychwanegol gan awdurdodau lleol a chyllid Ewropeaidd.
- meithrin cysylltiadau â'r holl gymunedau lleol, chwilio am gyfleoedd i weithio gyda chlybiau ieuenctid, grwpiau gwirfoddol, grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, grwpiau cymorth Plant sy'n Derbyn Gofal, Cymunedau yn Gyntaf.

**Dylid addysgu pob plentyn bod pawb yr un fath beth bynnag yw ei gefndir ac na ddylid edrych ar neb fel rhywun 'gwahanol'.**

Sylwadau o'r adroddiad a baratowyd gan Achub y Plant i Lywodraeth Cynulliad Cymru 'Travellers and Gypsies: Generations for the Future.'

### Adnoddau

- Mae 'Faith Guides' yn wefan sy'n cynnig cyngor ynghylch Arweiniadau i Gristnogaeth, Islam, Sikhiaeth, Hindŵaeth ac Iddewiaeth. Mae'r arweiniadau'n ymdrin â'r gofynion mewn Rheoliadau Cydraddoldeb er mwyn osgoi gwahaniaethu ar sail crefydd a chredo ac yn helpu i feithrin dealltwriaeth o'r meysydd hynny sy'n debygol o beri tramgwydd. http://www.multiverse.ac.uk/ViewArticle2.aspx?Keyword=faith+guides&SearchOption=And&SearchType=Keyword&RefineExpand=1&ContentId=14050&TextSize=Large

- *Un Gymru, Sawl Llais*: DVD sy'n rhoi gwybodaeth am amryw o strategaethau effeithiol i hybu cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.
- Cylchlythyr 003/2008 - Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn-Teithwyr, (Mawrth 2008): http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/gypsytravellerchildren/;jsessionid=ddNnM1vLdgXT1WVTJnltMDJXzJSNzQGhcJh3cQybGDn1zr6K9cfP!741275934?lang=cy
- Adroddiadau cylch gwaith Estyn sy'n cynnwys astudiaethau achos o arferion da:
    - Adroddiad cylch gwaith Estyn: Cymorth awdurdodau lleol ar gyfer addysg plant gweithwyr mudol, Hydref 2009: http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports/cy_Local_authority_support_for_the_education_of_children_of_migrant_workers_october_2009.pdf
    - Adroddiad cylch gwaith Estyn: Pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed sydd ag anghenion caffael Saesneg? (Gorffennaf 2009): http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports/cy_Provision_for_learners_with_English_language_acquisition_needs.pdf
    - Adroddiad cylch gwaith Estyn: Effaith polisïau cydraddoldeb hiliol ysgolion, (Mai 2009): http://estyn.co.uk/ThematicReports/cy_the_impact_of_schools_race_equality_policies_may_2009.pdf

**Adroddiad Arolygu gan Estyn**

Mae tua 620 o ddisgyblion yn **Ysgol Gynradd Sirol Pillgwenlli yng Nghasnewydd**. Mae gan 44 y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol i bron dwy ran o dair ohonynt. Mae 29 o ieithoedd yn cael eu siarad ar draws yr ysgol, heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg. Yn adroddiad arolygu'r ysgol eleni, dywedodd Estyn: *"Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal yn rhagorol. Mae synnwyr o degwch, synnwyr o dderbyn a chynhwysiant yn treiddio drwy'r ysgol gyfan. Mae polisïau'n effeithiol o ran hyrwyddo cyfle cyfartal, cydraddoldeb rhyw a chydraddoldeb hil. Yn ymarferol, mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth lawn i gefndiroedd cymdeithasol, ethnig, ieithyddol ac addysgol disgyblion er mwyn sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn deg a'u bod i gyd yn cael yr un cymorth da. Mae'r ysgol yn llwyddiannus iawn o ran hyrwyddo cydraddoldeb rhyw a herio dewisiadau stereoteip. Mae trefniadau rhagorol ar waith i ddileu bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu ar sail hil. Mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 yn deall y system 'Cerdyn coch am hiliaeth' a'r 'blychau gwrando' i fynd i'r afael â materion bwlio. Mae gweithdrefnau'n adlewyrchu'n effeithiol ymrwymiad yr ysgol i gynhwysiant, ac mae gwaith asiantaethau allanol fel Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent yn amhrisiadwy yn hyn o beth."*

**Sut mae un ysgol uwchradd yn estyn cymorth i blant gweithwyr mudol pan fyddant yn cyrraedd yn gyntaf.**

**Y Cyd-destun**

Mae ysgol uwchradd wledig wedi dynodi cynorthwyydd cymorth dysgu i gyflwyno rhaglen gynefino.

**Strategaeth/Camau gweithredu**

Yn ystod y ddau neu dri diwrnod cyntaf wedi iddynt gyrraedd yr ysgol, bydd plant gweithwyr mudol yn cymryd rhan mewn proses gynefino. Un agwedd ar hyn yw darparu cymorth iaith i sicrhau bod y plant hyn yn dod i arfer â phethau fel amserlen yr ysgol, gwisg ysgol, trefniadau'r awr ginio, rheolau'r ysgol, sut i ddefnyddio llyfrgell yr ysgol a gwybodaeth am feysydd pwnc. Mae'r trefniant hwn yn un effeithiol gan ei fod yn canolbwyntio ar lawer o faterion ymarferol na fydd ysgolion yn eu hystyried yn aml.

**Canlyniadau**

Mae'r dull hwn o gynorthwyo plant gweithwyr mudol a'u helpu i gynefino'n effeithiol yn diwallu eu hanghenion cyntaf ac yn eu galluogi i ddod yn rhan o fywyd yr ysgol.

**Prosiect Cyfeillio Cyfoedion**

Yn y prosiect Cyfeillio Cyfoedion roedd disgyblion Blwyddyn 9 yn Ysgol Clywedog, Wrecsam yn gweithio gyda'r Groes Goch Brydeinig.

Cafodd dysgwyr eu hyfforddi i ddarparu gwasanaeth cyfeillio cyfoedion i ddysgwyr mudol a oedd yn cael anawsterau o ran integreiddio neu am eu bod wedi'u hynysu o fewn eu hysgol. Ar y dechrau roedd hyn yn golygu cynnal sesiynau galw heibio dyddiol i'r grŵp o ddysgwyr a enwyd. O ganlyniad i hyn datblygwyd cymorth 'cyfeillio' fel bod 'cyfeillion' unigol yn rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol uniongyrchol i gyfoedion mudol unigol.

Ymgymerodd y grŵp hwn â chyfrifoldeb hefyd dros ddatblygu gweithgareddau hybu ymwybyddiaeth, fel gwasanaethau boreol yn yr ysgol i dynnu sylw at yr anawsterau yr oedd dysgwyr mudol yn eu cael a'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu o ran integreiddio yn y gymuned.

"Credaf fod y prosiect hwn wedi helpu pobl y mae arnynt angen neu eisiau cymorth i ddatrys problemau preifat, e.e. os yw rhywun yn cael ei fwlio, er mwyn adennill hyder. Gallai helpu pobl i wneud ffrindiau hefyd os ydynt yn newydd neu o wlad dramor. Hefyd gallai geisio helpu pobl o wledydd tramor i siarad Saesneg yn gliriach. Credaf y bydd y prosiect hwn yn gwneud amgylchedd rhai pobl yn fwy hapus nag yr oedd."

"Credaf fod y prosiect wedi helpu plant sy'n newydd i'r ysgol ac efallai'n newydd i'r ardal i ddod i adnabod ardal Wrecsam a'r ysgol, ac wedi rhoi cyfle iddynt wneud ffrindiau newydd. Byddant yn cael cyfle i ddatrys problemau, gwneud ffrindiau newydd a chael cyngor."

**Sylwadau gan ddysgwyr a oedd yn rhan o'r prosiect Cyfeillio Cyfoedion**

### f. Herio unrhyw fathau o ymddygiad sy'n amharu ar allu unigolion a grwpiau i gydweithio a modelu ffyrdd i adnabod teimladau o gael cam a gwneud iawn am ddrwg

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- adolygu strategaethau 'gwrth-fwlio' er mwyn lleihau bwlio sydd wedi'i seilio ar gasineb a rhagfarn. 'Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio.' Cylchlythyr: 23/2003 dyddiad cyhoeddi Medi 2003 wales.gov.uk/topics/educationandskills/.../antibullying/?lang...
- defnyddio dulliau cyfiawnder adferol i ddatrys problemau rhwng dysgwyr. Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid - 'Restorative Justice in Schools' http://www.yjb.gov.uk/cy/default.htm
- ymgysylltu'n well â Thimau Troseddau Ieuenctid (TTIau)

**CAM GWEITHREDU GAN YR YSGOL: gwerthuso'r dystiolaeth a fyddai'n dangos i ddysgwyr, staff a'r gymuned fod yr ysgol wedi ymrwymo i gydlyniant cymunedol ac integreiddio.**

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn: Cwestiwn Allweddol 2 Darpariaeth**

**2.3.1 darpariaeth ar gyfer iechyd a lles**

**2.1.4 addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang**

**2.4.1 ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth**

## 6.1.2 Hyrwyddo gwerthoedd craidd cymdeithas ddemocrataidd a modelu'r prosesau drwy'r canlynol:

### a. Amddiffyn hawliau pobl i gydraddoldeb dan y gyfraith beth bynnag fo'u rhyw, oed, hil, credo, gallu neu anabledd, cyfeiriadedd rhywiol

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- cynnwys datganiadau clir i ddysgwyr a rhieni ynghylch gwerthoedd craidd yr ysgol mewn 'Cytundebau Cartref-Ysgol'. Cytundebau Cartref-Ysgol: Canllawiau i Ysgolion: Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 27/99 wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100223schooluniformen.pdf
- sicrhau bod sylw dyladwy wedi'i roi i'r argymhellion yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru *'Gwneud Pethau'n Iawn 2009: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cynllun Gweithredu treigl pum mlynedd ar gyfer Cymru yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau allweddol y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgymryd â hwy mewn ymateb i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2008'* http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/default.aspx

**b. Hyrwyddo'r defnydd o brosesau priodol i ddatrys anghytundebau ac amddiffyn rhai sy'n agored i niwed**

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- sicrhau bod prosesau teg ar waith ar gyfer y rheini sy'n cael niwed neu'n teimlo effaith oherwydd gweithredoedd gan eraill. Gallai hyn gynnwys atgyfeirio at Seicolegwyr Addysgol, cynghorwyr mewn ysgolion, gwasanaethau eirioli neu drwy gyfarfodydd partneriaeth aml-asiantaeth at wasanaethau eraill
- defnyddio dulliau cyfiawnder adferol i ddatrys problemau rhwng dysgwyr. Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid - 'Restorative Justice in Schools' http://www.yjb.gov.uk/cy/default.htm

**c. Modelu democratiaeth gyfranogol a chynrychiadol drwy ymgysylltu ac ystyried safbwyntiau a fynegir**

Bydd y gwaith o ddatblygu dulliau effeithiol o wrando ar leisiau dysgwyr yn cynnwys y Cyngor Ysgol a Fforymau Ieuenctid lleol. Dylid cael ystod eang o ddulliau eraill o glywed lleisiau dysgwyr a phobl ifanc, e.e. cystadlaethau Siarad Cyhoeddus. Bydd y rhain yn cynnig cyfle i bobl ifanc fodelu rhyddid i lefaru gan amddiffyn dysgwyr sy'n agored i niwed a hyrwyddo dadansoddi beirniadol ar y ffeithiau a'r dystiolaeth. Dylai ysgolion roi sylw'n benodol i'r dysgwyr hynny a allai gael eu hymyleiddio neu eu hallgáu, a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn mentrau er mwyn hybu cyfranogi.

**Un Wrecsam - Siarter Perthyn - fersiwn i blant**

Datblygwyd ‘Un Wrecsam - Siarter Perthyn’ er mwyn hyrwyddo camau i gydnabod a pharchu amrywiaeth ledled y Fwrdeistref Sirol. Ar ôl mabwysiadu ‘Un Wrecsam - Siarter Perthyn’ ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, awgrymodd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc y dylid creu fersiwn i blant fel rhan o’r Strategaeth Cydlyniant Cymunedol.

Comisiynwyd y Cynghorydd Addysg Grefyddol i weithio gyda phlant yn **Ysgol Gynradd y Santes Fair, Wrecsam** i ddatblygu fersiwn o’r Siarter i blant.

Mae’r fersiwn o’r Siarter i blant yn dal i gynnwys y gwerthoedd craidd.
Mae’n adlewyrchu’r math o iaith y mae plant yn ei ddefnyddio i ddisgrifio cydlyniant cymunedol a sut maent am hyrwyddo camau i gydnabod pobl eraill a dangos parch at amrywiaeth yn eu cymuned.

Gwelwyd yn glir wrth gynnwys pobl ifanc yn y broses pa mor bwysig yw llais plant o ran helpu i gyfleu’r negeseuon sydd yn y fersiwn i oedolion. Mae’r fersiwn o’r Siarter i blant yn cael ei defnyddio yn holl ysgolion Wrecsam bellach.

**Cyngor Ysgol y Byd**

Sefydlwyd Cyngor Ysgol y Byd gan ddysgwyr yn **Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, Powys**.

Mae Cyngor Ysgol y Byd yn canolbwyntio ar bynciau byd-eang sy’n ymwneud â hawliau plant, iechyd plant, yr amgylchedd a materion rhyngwladol. Eu gweledigaeth yw sefydlu cyngor byd-eang o fyfyrwyr a fydd yn cydweithio ac yn siarad â’i gilydd er mwyn mynd i’r afael â rhai o’r heriau y mae plant yn eu hwynebu ym mhob rhan o’r byd.

Pwrpas sylfaenol Cyngor Ysgol y Byd yw:

- Hyrwyddo ysbryd brawdoliaeth a chreu cysylltiadau rhwng pobl ifanc o bob rhan o’r byd a fydd yn parhau ar hyd eu hoes.
- Cychwyn trafodaeth gan bobl ifanc am faterion sy’n effeithio ar bob un ohonom a sut gallwn eu datrys.
- Cydweithio â chyrff rhyngwladol ac unigolion i wneud y byd yn lle gwell i blant a phobl ifanc fyw, gweithio a chwarae ynddo.

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- Modelu rhyddid i lefaru drwy gyfranogi effeithiol gan ddysgwyr, gan sicrhau amddiffyniad i ddysgwyr sy'n agored i niwed a hyrwyddo dadansoddi beirniadol ar dystiolaeth.
- Annog y Cyngor Ysgol a'r holl ddysgwyr i ddefnyddio gwefannau Llais y Dysgwr i Gymru http://www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/hafan/ a http://www.learnervoicewales.org.uk/home/.

  Adnoddau eraill:

  Rheoliadau Addysg (Cynghorau Ysgol) (Cymru) 2006; Cylchlythyr 42/2006;

  Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol

  'Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.' Dogfen ymchwil 051/2010 Cyhoeddwyd 2010 http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=cy

  'Ydyn ni'n cwrdd â'ch safonau?' Pecyn Hunan-Asesu Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc. Mai 2007. http://www.funkydragon.org/cy/index.asp

- Meithrin cysylltiadau ag ysgolion eraill drwy amryw o brosiectau cwricwlwm sydd wedi'u datblygu gan y Schools Linking Network http://www.schoolslinkingnetwork.org.uk/default.aspx
- Defnyddio pecyn cymorth y Cyngor Prydeinig ar gydlyniant cymunedol i ysgolion i weld sut mae cyswllt rhyngwladol yn cynnig cyfle i ddysgwyr ymchwilio, trafod, casglu a chyflwyno eu safbwyntiau eu hunain ynghylch hunaniaeth http://www.globalgateway.org.uk/default.aspx?=4073

**CAM GWEITHREDU GAN YR YSGOL: adolygu'r polisïau ac arferion ar gyfer dysgwyr a staff sy'n ymwneud â gwerthoedd democrataidd, cynnwys y gymuned a phenderfynu.**

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn:**
**Cwestiwn Allweddol 2 Darpariaeth**

**2.3.1 darpariaeth ar gyfer iechyd a lles**

## 6.1.3 Meithrin dealltwriaeth staff o'u rolau a'u hyder yn eu sgiliau drwy'r canlynol:

**a. Hybu ymwybyddiaeth o faterion lleol a allai alw am sylw yng nghyd-destun cydlyniant cymunedol.**

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- cynrychiolwyr y pennaeth yn cysylltu â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol
- sefydlu cysylltiadau uniongyrchol â Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu a Thimau Plismona Cymdogaeth
- ymgysylltu â phartneriaethau a grwpiau lleol e.e. Cymunedau yn Gyntaf
- darparu amgylchedd diogel i drafod materion dadleuol
- darparu hyfforddiant priodol i staff i feithrin hyder staff fel y gallant ddelio â materion dadleuol. Mae gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn darparu cyngor ar addysgu materion sensitif http://wales.gov.uk/psesub/home/holisticpse/delivery/teachingsensitiveissues/?skip=1&lang=cy
- meithrin hyder yr holl staff yn eu gallu i ddelio â materion dadleuol ym mhob pwnc drwy gymryd rhan yn y prosiect AtGyfnerthu. Nod prosiect AtGyfnerthu yw helpu i feithrin hyder athrawon yn eu gallu i ddelio â materion dadleuol a allai godi yn ystod gwersi http://www.re-silience.org.uk/index.php?lang=cy
- cydgysylltu â Swyddogion Cyswllt yr Heddlu ar gyfer Cymuned yr Ysgol ac elwa o'u harbenigedd o ran y modd y maent yn delio â materion o'r fath sy'n codi yn 'Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan' http://schoolbeat.org/?L=3

b. **Hyrwyddo lles dysgwyr, yn enwedig y rheini sy’n agored i bwysau sy’n gysylltiedig ag eithafiaeth dreisgar**

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- hybu ymwybyddiaeth staff o brosesau cymorth i ddysgwyr ac o bwysigrwydd gweithio aml-asiantaeth
- sicrhau bod yr holl staff yn gwybod pa aelod staff sy’n gyfrifol am amddiffyn plant a beth yw’r gweithdrefnau cywir ar gyfer cofnodi pryderon
- sicrhau bod polisi defnydd derbyniol ar gyfer TGCh gan yr ysgol sydd wedi’i ddiweddaru ac sy’n cyfeirio at y gofyniad na fydd dysgwyr yn cael mynediad i wefannau amhriodol, yn enwedig y rheini sy’n hyrwyddo eithafiaeth dreisgar. http://www.ict-register.net/esafety-aups.php
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o weithdrefnau diogel ar gyfer defnyddio’r rhyngrwyd. http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/esafety-home.htm sefydlu agwedd ysgol gyfan at iechyd a lles drwy gymryd rhan yn Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru ac yn benodol drwy roi sylw i ddangosyddion y Wobr Ansawdd Genedlaethol ar gyfer iechyd a lles meddyliol ac emosiynol http://wales.gov.uk/topics/health/improvement/index/scheme/?skip=1&lang=cy

**Astudiaeth achos**

Gwnaeth myfyriwr blwyddyn 11 greu a chyhoeddi tudalen we a oedd yn cefnogi safbwyntiau'r dde eithaf. Rhoddodd aelod o'r gymuned wybod am y mater hwn i'r ysgol. Ymgymerodd staff uwch yr ysgol ar unwaith ag ymchwiliad trylwyr i'r defnydd o system rwydwaith yr ysgol gan y myfyriwr a enwyd.

Dangosodd y trywydd archwilio'n glir nad oedd y myfyriwr wedi creu'r dudalen pan oedd yn yr ysgol. Yn ystod yr ymchwiliad gan yr ysgol cyfaddefodd y myfyriwr, ym mhresenoldeb ei rieni, ei fod wedi creu'r dudalen a'i chyhoeddi ar y rhyngrwyd o'i gyfrifiadur cartref.

Er hynny, roedd y myfyriwr wedi ceisio cael mynediad at ddeunydd amhriodol drwy ryngrwyd yr ysgol, ond roedd y system ddiogelu 'mur cadarn' wedi atal y chwiliadau hyn. Roedd yn amlwg bod y myfyriwr wedi mynd yn groes i Bolisi Defnydd Derbyniol yr ysgol. Roedd polisïau ac arferion TGCh yr ysgol wedi sicrhau nad oedd system ddiogelu'r rhwydwaith wedi'i bylchu.

Mae'r heddlu a chyrff sy'n bartneriaid iddo'n dal i ddarparu cymorth i'r dysgwr o ran delio â'i safbwyntiau eithafol ac mae hyn wedi parhau wedi iddo symud i'r coleg lleol.

### c. Cyflawni rolau perthnasol mewn darpariaeth arbenigol a darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- sefydlu cyfarfodydd partneriaeth aml-asiantaeth yn unol â chanllawiau lleol a mabwysiadu Protocol Rhannu Gwybodaeth clir drwy gytundeb rhwng yr holl asiantaethau perthnasol yn unol â chanllawiau sydd ym Mhennod 14 o'r canllawiau ar ddiogelu plant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/safeguardingunder2004act/?lang=cy
- sicrhau bod staff allweddol yn bresennol mewn cyfarfodydd aml-asiantaeth a chyfarfodydd wedi'u targedu sy'n cysylltu'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/safeguardingunder2004act/?lang=cy

### d. Ymateb i ddigwyddiadau sy'n effeithio ar yr ysgol, dysgwyr neu'r gymuned leol

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- sicrhau bod staff allweddol yn ymwybodol o weithdrefnau'r awdurdod lleol ar gyfer delio â digwyddiadau tyngedfennol
- sicrhau bod modd darparu cymorth proffesiynol priodol os ceir digwyddiad a allai effeithio ar gydlyniant cymunedol. Un pwynt cyswllt defnyddiol fydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol neu aelod dynodedig yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am Gydlyniant Cymunedol.

**CAM GWEITHREDU GAN YR YSGOL: Adolygu anghenion yr holl staff o ran datblygiad proffesiynol fel y gallant wella cydlyniant cymunedol a delio â materion a allai godi.**

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn: Cwestiwn Allweddol 2 Darpariaeth**

**2.1.1 bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr/y gymuned**

**2.3.3 trefniadau diogelu**

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn: Cwestiwn Allweddol 3 Arweinyddiaeth**

**3.3.1 partneriaethau strategol**

# 6.2 Gweithio gydag eraill

**Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:**

**Cyflwyniad**

**Adolygu gweledigaeth yr ysgol yng nghyd-destun Addysg sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned**

**Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu**

**Bod yn bartner gweithredol wrth arwain y gymuned yng nghyd-destun adfywio cymunedol**


**Ymgysylltu â theuluoedd a grwpiau cymunedol**

**Gwerthuso effeithiolrwydd yr ysgol fel ysgol fro**

## Cyflwyniad

Wrth gyfrannu at gydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar, dylai ysgolion weithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill a cholegau, yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill. Mae'r agenda Ysgolion Bro yn cydnabod ac yn adeiladu ar sail y rhan ganolog y mae ysgolion yn ei chwarae yn eu cymunedau. Mae Ysgolion Bro yn gatalydd sy'n galluogi Awdurdodau Lleol a'u partneriaid yn y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i ymgymryd â dull strategol o drafod cydlyniant cymunedol a fydd wedi'i fynegi yng Nghynlluniau Sengl yr Awdurdodau Lleol.

### a. Adolygu gweledigaeth yr ysgol yng nghyd-destun Addysg sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned



**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- adolygu dull strategol yr ysgol o ymwneud ag Addysg sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned

  Ysgolion Bro, Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cylchlythyr: 34/2003
  Dyddiad cyhoeddi: 15 Rhagfyr 2003
  http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/Community_Focused_Schools_Circ1?lang=cy

  Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Chwefror 2008
  http://www.sefcymru.org/cym/sef-p2-home/sef-p2-social_justice/sef-p2-social-justice-engaging-families.htm

  ContinYou Cymru - Ysgolion Bro
  http://www.continyou.org.uk/cymru_wales/ysgolion_bro/mynegai


  Ysgolion Bro: Pecyn Cymorth
  http://www.continyou.org.uk/cymru_wales/ysgolion_bro/ysgolion_bro_gwneud_pethau_ddigwydd_pecyn_cymorth

  Sefydliad Cydlyniant Cymunedol
  http://www.cohesioninstitute.org.uk/home

**b. Sicrhau bod yr holl staff yn llwyr ymwybodol o'r gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu a'u bod yn deall unrhyw densiynau yn y gymuned:**

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- creu naratif cyd-destunol sy'n mynd y tu hwnt i ddata ac yn adlewyrchu'r gymuned. Mae'r naratifau cyd-destunol gorau'n asesiadau gonest ac agored o'r materion sy'n codi ac yn hawdd eu deall gan bawb sy'n gysylltiedig. Bydd y gwaith o gynhyrchu naratif yn anghysurus yn aml, gan fod canfyddiad o bwysau i roi disgrifiad cadarnhaol o'r ardal. Mae'r diagram isod yn dangos y prif feysydd i'w hystyried.
- cynnwys partneriaid yn y broses o ddatblygu naratif cyd-destunol.




**Enghreifftiau o naratifau ysgol**

**Ysgol A**

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal sydd â sgôr amddifadedd isel. Daw dysgwyr o'r pentref a'r ardal wledig ehangach. Stad o deuluoedd yn y pentref sydd â phroblemau cymdeithasol, teuluoedd un rhiant ifanc a lefelau troseddu uchel (yn gysylltiedig â chyffuriau) sy'n cyfyngu cyfleoedd. Mae bron pob un o'r teuluoedd yn Wyn - Prydeinig, a nifer bach iawn sydd o gefndiroedd diwylliannol eraill. Mae rhai teuluoedd sydd â phrofiad cyfyng iawn y tu allan i'r pentref fel bod dealltwriaeth gyfyngedig o gymunedau ehangach gan rai ohonynt. Mae hefyd yn ysgol sydd â pholisi derbyn wedi'i seilio ar ffydd benodol.

**Ysgol B**

Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned drefol amrywiol iawn, gyda dysgwyr o ystod eang iawn o gefndiroedd diwylliannol, ethnig ac ieithyddol. Yn gyffredinol: Gwyn - Prydeinig 22%, Du - Affricanaidd 22%, Du - Caribïaidd 9%, Asiaidd 24%, Dwyrain Ewrop 8%. Mae'n ardal sydd â lefel uchel o symudedd cymdeithasol ac amddifadedd sylweddol. Ar y cyfan mae dyheadau isel a dibyniaeth uchel gan deuluoedd sy'n aros yn yr ardal. Mae amrywiaeth o grefyddau a lefelau uchel o addoli ond mae'r rhan fwyaf yn teithio allan o'r ardal i wahanol ganolfannau ffydd.

**c. Bod yn bartner gweithredol wrth arwain y gymuned yng nghyd-destun adfywio cymdeithasol**

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- ystyried y rhan sydd gan yr ysgol i'w chwarae wrth gyflawni Strategaeth Tlodi Plant Cymru http://wales.gov.uk/consultations/childrenandyoungpeople/cpstrategy/?lang=cy
- adolygu'r modd y mae'r ysgol yn ymgysylltu â phartneriaid sy'n darparu cymorth i wahanol gymunedau e.e. Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf
- datblygu cysylltiadau â grwpiau ffydd lleol
- datblygu cysylltiadau â Grwpiau Ffydd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Grwpiau Ffydd Lleiafrifol. 'Southern Voices: Welsh Choices' sydd wedi'i gyhoeddi gan Cyfanfyd http://www.cyfanfyd.org.uk/c_cover.html
- sicrhau bod rhwystrau rhag ymgysylltu cymunedol wedi'u dileu e.e. yng nghyd-destun mynediad, trafnidiaeth, polisïau codi tâl.

**d. Ymgysylltu â theuluoedd a grwpiau cymunedol mewn modd sydd hefyd, pan fo angen, yn herio safbwyntiau annerbyniol ac yn modelu ffyrdd o ddatrys problemau**

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- sefydlu prosiectau ar gyfer pontio'r cenedlaethau gydag aelodau o deuluoedd a allai roi sylw i amryw o faterion fel materion diwylliannol a chrefyddol neu brosiectau Sgiliau Sylfaenol
- datblygu partneriaethau ysgol fel modd i hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol mewn cymunedau lleol.

**Prosiect y Mala Heddwch**

Datblygwyd y prosiect mewn ymateb i'r casineb a'r rhagfarn a welwyd mewn ysgol yng Nghymru ar ôl ymosodiadau 9/11 yn 2001.

Mae'r mala heddwch ei hun, sef breichled gleiniau ddwbl amryliw, yn cynrychioli amrywiaeth y crefyddau sy'n cydfodoli a'r syniad nad oes ond un gwirionedd sylfaenol sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o grefyddau mawr y byd, sef y Rheol Aur ynghylch trin y person agosaf fel yr ydych yn dymuno cael eich trin eich hun.

Mae'r canlyniadau i'r gweithgareddau a ddeilliodd o'r prosiect cyntaf hwn wedi'u disgrifio fel rhai 'gweddnewidiol' o ran ymladd yn erbyn ofn ac anwybodaeth. Drwy gynnwys oedolion yn ogystal â phlant a phobl ifanc, mae'r prosiect wedi helpu i 'uno'r gymuned'.

**Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth**

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth (Cymru) yn harneisio proffil uchel pobl broffesiynol ym myd chwaraeon. Ei nod yw brwydro yn erbyn hiliaeth drwy gynnal gweithdai a phrosiectau. Maent hefyd yn darparu ystod eang o ffynonellau addysgol.

Delir ag amrywiaeth eang o faterion mewn ysgolion, clybiau ieuenctid a sefyllfaoedd cymunedol eraill.

- Roedd ysgol yn Ne Cymru yn poeni am y ffaith bod nifer o ddysgwyr yn mynegi barn hiliol. Dilynwyd gweithdy dan arweiniad pêl-droediwr proffesiynol, gan ddigwyddiad gyda chlwb rygbi Gleision Caerdydd.

- Gwnaeth Clwb Ieuenctid a oedd yn gwasanaethu cymuned amrywiol o ran ethnigrwydd ymgymryd â phrosiect a wnaeth gymell grŵp o bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed i fagu'r hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, ac yn y pen draw, i ffurfio nifer o dimau pêl-droed sy'n chwarae mewn cynghrair aml-ddiwylliannol.
- Cynhaliwyd gweithdy sgiliau hyfforddi ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid o Zimbabwe. Dywedodd y bobl ifanc oedd yn rhan o'r gweithdy eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i gynnal hyfforddiant ar gyfer aelodau eraill o'r gymuned.

Mae'r prosiectau wedi helpu i leihau tensiynau yn yr ysgolion ac wedi cymell grŵp sylweddol o bobl ifanc sydd bellach yn cymryd rhan fwy cadarnhaol ym mywyd yr ysgol a'r gymuned.

**e. Gwerthuso effeithiolrwydd yr ysgol fel ysgol fro**

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- defnyddio'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Proffil Effeithiolrwydd Ysgol http://www.sefcymru.org/cym/sef-p2-home/sef-p2-about-sef/sef-p2-about-sef-sef-and-schools/sef-p2-sef-sep.htm
- defnyddio'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Ysgolion Cymunedol http://www.continyou.org.uk/children_and_young_people/international_centre_excellence_community_schools/

**CAM GWEITHREDU GAN YR YSGOL: gwerthuso a datblygu prosesau i werthuso effeithiolrwydd yr ysgol fel ysgol fro.**

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn:**
**Cwestiwn Allweddol 1 Deilliannau**

**1.2.3 ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau**

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn:**
**Cwestiwn Allweddol 3 Arweinyddiaeth**

**3.3.1 partneriaethau strategol**

# 6.3 Y cwricwlwm ac addysgu

**Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:**

**Cyflwyniad**

**Strategaethau dysgu ac addysgu**

**Y cwricwlwm ysgol yng Nghymru**

**Defnyddio ac addasu'r cwricwlwm**

**Dimensiynau trawsgwricwlaidd**

**Datblygu sgiliau perthnasol**

## Cyflwyniad

Yn yr is-adran hon eglurir sut gall ysgolion ddatblygu a chyfrannu at gydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar drwy'r canlynol:

- **Cwricwlwm** sy'n hyrwyddo hawliau dynol ac sydd wedi'i addasu i gydnabod anghenion lleol a herio naratifau eithafol.
- **Arddulliau dysgu a strategaethau addysgu** sy'n ymchwilio i faterion dadleuol mewn modd sy'n hyrwyddo dadansoddi beirniadol ac yn annog dysgwyr i fynegi eu syniadau, eu meddyliau a'u safbwyntiau.
- Datblygu'r **sgiliau dysgu, cymdeithasol ac emosiynol** sy'n grymuso dysgwyr ac yn datblygu cyfrifoldeb, gan leihau'r graddau y maent yn agored i niwed.
- **Rhaglen Allgwricwlaidd** sy'n defnyddio rhaglenni neu grwpiau allanol i hybu dysgu gan sicrhau bod y mewnbwn yn ategu nodau a gwerthoedd yr ysgol.


Efallai y bydd ysgolion yn cael bod y cwestiynau canlynol yn ddefnyddiol wrth iddynt adolygu eu cwricwlwm a'u haddysgu yng nghyd-destun Prevent. Mae'r cwestiynau wedi'u cynnig fel man cychwyn. Bydd ysgolion am ychwanegu at y cwestiynau hyn wrth iddynt ystyried y materion yn eu cyd-destun eu hunain.

**Ym mha bynciau y caiff agenda Prevent ei hystyried?**

**Sut mae themâu trawsgwricwlaidd yn cael eu defnyddio a'u trin?**

**Sut mae'r ysgol yn defnyddio gwaith mewn grwpiau bach i ymchwilio i densiynau gyda disgyblion sy'n achosi pryder?**

**A yw disgyblion yn cael cymorth ac anogaeth i ofyn cwestiynau a mynegi eu barn a'u credoau?**




**Pa ddefnydd a wneir o wasanaethau boreol i ystyried materion dadleuol?**

**Pa gyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion gymryd rhan mewn dadleuon gyda'i gilydd?**

**A yw'r ysgol yn gweithio gyda chyrff cymunedol i ymestyn dysgu?**

**Pa mor dda y mae disgyblion yn datrys problemau ac yn datrys anghydfodau?**

**Sut rydych yn datblygu sgiliau meddwl beirniadol?**

Wrth ddefnyddio addysgu, dysgu a'r cwricwlwm i feithrin cydlyniant cymunedol a'r gallu i wrthsefyll eithafiaeth dreisgar, gall ysgolion adeiladu ar sail yr hyn y maent yn ei wneud yn barod er mwyn:

- helpu i feithrin hyder athrawon er mwyn delio â materion sensitif a dadleuol sy'n gallu codi yn ystod gwersi
- helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth am grefydd, hanes, daearyddiaeth, Cymraeg/Saesneg (yn enwedig astudiaeth feirniadol o'r cyfryngau) a dadansoddi materion sy'n achosi pryder ar y pryd
- helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau y mae eu hangen i werthuso'n effeithiol a thrafod materion a allai fod yn sensitif ac yn ddadleuol
- darparu mannau diogel i ddysgwyr drafod materion sy'n achosi pryder iddynt yn agored gan gynnwys ymchwil i'w hunaniaethau eu hunain a'r cysylltiad rhyngddynt ac amrywiaeth y gymdeithas y maent yn byw ynddi
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddeall, cwrdd ac ymgysylltu â phobl o wahanol gefndiroedd mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo'r gwerthoedd cyffredin gan gydnabod amrywiaeth o fewn cymunedau.

Mae tystiolaeth bod eithafwyr treisgar yn defnyddio naratifau sy'n cymysgu ffeithiau neu ffeithiau dethol â haeriadau, barn oddrychol ac emosiwn er mwyn cyfiawnhau eu gweithredoedd a hyrwyddo trais. Nid yw'r naratifau'n caniatáu dehongliadau eraill ac maent

yn gwrthod tystiolaeth ffeithiol neu ddadansoddi sy'n groes iddynt. Mae eithafiaeth dreisgar, a phob math o wahaniaethu sy'n hiliol neu wedi'i ysgogi gan gasineb, yn dibynnu hefyd ar barhau neu ddwysáu rhaniadau mewn cymdeithas, yn aml drwy gamfanteisio ar ofnau neu ddiffyg dealltwriaeth pobl am bobl eraill.

Dylai addysg mewn democratiaeth roi anogaeth i drafod a dadlau ynghylch pob mater yn feirniadol yn ôl ei rinweddau ei hun gan arfer dull deallusol priodol o drafod materion athronyddol, crefyddol a moesegol. Dylai hefyd hyrwyddo hawliau dinasyddion i brotestio'n gyfreithlon.

## a. Strategaethau Dysgu ac Addysgu

Drwy ymdrin yn effeithiol â materion sensitif a dadleuol bydd modd herio safbwyntiau a chanfyddiadau ymysg dysgwyr sydd heb eu seilio ar wybodaeth gywir, herio 'mythau' cyffredin a meithrin gwerthfawrogiad o bobl eraill.

Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i athrawon wneud y canlynol:

- defnyddio technegau holi i gychwyn dadl ddiogel
- bod yn ddigon hyderus i hyrwyddo agwedd onest at safbwyntiau amryfath
- sicrhau bod rhyddid mynegiant a rhyddid oddi wrth fygythiadau
- hybu dadleuon ynghylch egwyddorion sylfaenol sy'n ymwneud â moeseg a hawliau dynol
- hyrwyddo deialog agored a pharchus
- cadarnhau'r hunaniaethau dynamig amryfal sydd gan bob un ohonom.

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- Adolygu'r cwricwlwm i bennu lle mae materion sensitif a dadleuol yn cael eu cyflwyno a sicrhau bod staff yn meddu ar sgiliau a gwybodaeth addysgegol priodol i ddelio â materion sy'n codi
- Ystyried ymuno â'r prosiect AtGyfnerthu. Nod y prosiect AtGyfnerthu yw helpu i feithrin hyder athrawon wrth ddelio â materion dadleuol a allai godi mewn gwersi Addysg Grefyddol. http://www.re-silience.org.uk/index.php?lang=cy
- Darparu gweithgareddau datblygu staff sy'n grymuso staff er mwyn addysgu materion sensitif http://wales.gov.uk/psesub/home/holisticpse/delivery/teachingsensitiveissues/?lang=cy#named2

**Y prosiect AtGyfnerthu**

Mae'r **prosiect AtGyfnerthu** yn cynnig y cyfle i athrawon Addysg Grefyddol hunanwerthuso, cynllunio a derbyn hyfforddiant ac mae wedi'i dreialu mewn nifer o ysgolion yng Nghymru. Caiff y rhaglen ei darparu mewn ysgolion ac fe gaiff ei theilwra i gwrdd ag anghenion unigol ysgolion. Ei nod yw helpu i gynyddu hyder athrawon wrth ymwneud â materion dadleuol, yn enwedig pan ddefnyddir materion o'r fath weithiau i gyfiawnhau ymddygiad eithafol a threisgar.

Roedd **Ysgol Uwchradd Duffryn, Casnewydd** yn rhan o'r prosiect peilot. Roedd y staff sy'n addysgu addysg grefyddol yn teimlo eu bod yn hyderus wrth ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion dadleuol. O fewn cwta chwe wythnos, fodd bynnag, roeddent yn teimlo eu bod wedi datblygu, yn enwedig wrth ymdrin â materion dadleuol yn llawer mwy hyderus. Roedd wedi helpu'r staff i annog myfyrwyr i fynegi eu syniadau a'u credoau eu hunain mewn ffordd sensitif, hyd yn oed pan oeddent yn safbwyntiau dadleuol neu negyddol a fynegwyd gan unigolion yn yr ystafell ddosbarth.

Fe gefnogodd mentor yr ysgol drwy'r broses a'u helpu i werthuso eu sefyllfa gyfredol, ac edrych ar feysydd i'w datblygu.

O ganlyniad i'r gwaith hwn mae'r ysgol yn ystyried datblygu cymuned ddysgu broffesiynol o fewn yr ysgol er mwyn datblygu sgiliau staff eraill mewn meysydd pwnc eraill.

Gwefan: www.re-silience.org.uk

## b. Y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru

Mae'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru'n ceisio:

- canolbwyntio ar anghenion y dysgwr unigol a'u diwallu gan ddarparu **cyfle cyfartal**
- sicrhau bod cyfleoedd priodol i ddatblygu sgiliau ym mhob rhan o'r cwricwlwm fel bod dysgwyr **yn cael sgiliau trosglwyddadwy**
- canolbwyntio ar barhad a dilyniant 3-19
- cynnig llai o gynnwys mewn pynciau gyda mwy o bwyslais ar sgiliau
- bod yn berthnasol, yn ymestynnol, yn ddiddorol ac yn bleserus i'r **holl ddysgwyr** a bod yn hyblyg
- bod yn berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain a gweddnewid dysgu er mwyn creu dysgwyr gydol oes sy'n ddyfeisgar, **cydnerth** a myfyrgar

- hybu dwyieithrwydd, **y Cwricwlwm Cymreig, Cymru, Ewrop a'r Byd, cyfle cyfartal,** bwyd a ffitrwydd, **addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang,** a byd gwaith ac entrepreneuriaeth

'Manteisio i'r eithaf ar ddysgu - gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig' - 2008
http://wales.gov.uk/dcells/publications/curriculum_and_assessment/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/makingthemostoflearningnc/Making_Standard_WEB_(W).pdf;jsessionid=VbQ8MtlMB1j5hwvL2cLppv2p9QJpF2hzQJhw1ZYLGj1LLVyfT2bk!-238050917?lang=cy

Mae'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru, y craidd dysgu 14-19 ac elfennau trawsgwricwlaidd fel ADCDF, yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddysgwyr ddod i ddeall beth yw cydlyniant cymunedol a datblygu eu gallu i wrthsefyll eithafiaeth dreisgar.

Yn **adroddiad Ajegbo** 'Identity and Diversity: A Curriculum Review' (DCSF 2007) nodwyd y bydd *meithrin diddordeb dysgwyr mewn materion sydd weithiau'n ddadleuol ond yn berthnasol dros ben yn fodd i ennyn eu brwdfrydedd, ymgysylltu â nhw, datblygu eu sgiliau meddwl a chodi safonau a hefyd wneud ein gwlad yn lle gwell byth.*

Un o ofynion **Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)** yw bod dysgwyr yn astudio Cymru, Ewrop a'r Byd a gellir cysylltu hyn â'u hymchwiliad unigol. Gall Ymchwiliad Unigol y dysgwr godi o unrhyw ran o Graidd y CBC, caiff fod yn gysylltiedig â'r Opsiynau, a rhaid iddo gynnwys ystyriaeth i bersbectif lleol/Cymru ac o leiaf un persbectif arall (e.e. y DU, Ewrop, y byd), neu, fel arall, ystyriaeth fwy thematig i ryw fater gan dynnu enghreifftiau o amryw o bersbectifau. Rhai enghreifftiau o ymchwiliadau gan ddysgwyr mewn nifer o ysgolion a cholegau yw:

'Trafodwch a yw Cymru a Malaysia yn amlddiwylliannol a beth yw effeithiau hyn ar fywyd pob dydd y bobl sy'n byw yno.'

Ymchwiliad i'r cyfreithiau a'r materion sy'n ymwneud a phriodas dan orfod yng Nghymru a Phacistan.

Ymchwiliad i hawliau a bywydau menywod ifanc yng Nghymru ac Irac.

## i) Defnyddio ac addasu'r cwricwlwm

Bydd ysgolion yn gyfarwydd yn barod ag addasu'r cwricwlwm er mwyn bodloni anghenion eu dysgwyr.

Mae potensial ym mhob pwnc i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin gryfach a pharch mewn cysylltiad â diwylliant, credo a threftadaeth, drwy gynnwys pob cymuned a delio'n benodol ag agweddau ar gydlyniant cymunedol. Yn benodol, byddai addysg grefyddol a hanes yn gallu ymdrin ag agweddau ar naratifau eithafwyr treisgar. Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn cynnig cyfleoedd amlwg i ysgolion ddelio ag ystod eang o faterion sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol.

Bydd cyfleoedd i herio mythau a thrafod materion sy'n gysylltiedig â chydlyniant cymunedol ac eithafiaeth dreisgar yn codi hefyd mewn pynciau eraill ac mewn trafodaethau anffurfiol yn yr ysgol gyda dysgwyr neu staff.

Yn aml osgoir canolbwyntio ar faterion dadleuol ar draws y cwricwlwm yng nghyd-destun yr ystafell ddosbarth neu'r ysgol. Ymhlith y themâu y gellir eu trafod yng nghyd-destun cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar y mae:

- Amddifadedd
- Cymuned
- Diwylliant
- Eithafiaeth
- Ffydd
- Gwahanu
- Gwrthdaro
- Hunaniaeth
- Perthnasoedd
- Tlodi
- Ymfudo.

Yn yr ysgolion lle mae egwyddorion cynhwysol wedi'u sefydlu'n llwyddiannus yn y cwricwlwm:

- mae cynhwysiant a chydraddoldeb yn rhan ganolog o ethos yr ysgol ac wedi'u hadlewyrchu yn ei pholisïau cwricwlwm a'i chynlluniau gwaith;

- mae gwersi mewn pynciau fel addysg grefyddol ac addysg bersonol a chymdeithasol yn ymdrin ag ystod eang o dopigau sy'n ymwneud ag amrywiaeth, hil a chydraddoldeb;
- mae staff yn sicrhau bod ymwybyddiaeth dysgwyr o ddiwylliannau eraill wedi'i hybu drwy brofiadau ymarferol;
- mae themâu gwasanaethau boreol wedi'u cynllunio'n dda er mwyn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfleoedd i feddwl ynghylch amryw o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb; a dathlir diwylliannau dysgwyr o leiafrifoedd ethnig i beri i ddysgwyr ymfalchïo yn eu treftadaeth.

Drwy ymdrin yn effeithiol â materion dadleuol bydd modd herio safbwyntiau a chanfyddiadau ymysg dysgwyr sydd wedi'u seilio ar wybodaeth anghywir, herio 'mythau' cyffredin a meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o bobl eraill.

**Gwyliau Tapestri Bywyd a Ffydd**

Mae nifer o awdurdodau lleol wedi trefnu digwyddiadau i ddathlu'r amrywiaeth grefyddol, ddiwylliannol ac ieithyddol yn eu bwrdeistrefi sirol.

Mae **Caerffili** a **Wrecsam** wedi trefnu digwyddiadau i roi cymorth i ysgolion ynghylch hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chydnabod a pharchu amrywiaeth, ynghylch cynnig profiadau dysgu sy'n ehangu ac yn cyfoethogi profiad dysgwyr, ac o ran cynnig profiadau dysgu sy'n hybu datblygiad personol dysgwyr; gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae Gŵyl Tapestri Bywyd a Ffydd yn **Wrecsam** yn rhoi:

Amser i ddathlu - i werthfawrogi a mwynhau amrywiaeth, i gydnabod y galluoedd, y doniau a'r cyfleoedd sydd gennym yn ein byd.

Amser i ymchwilio - i ofyn cwestiynau, i ddarganfod, i drafod, i rannu profiadau newydd.

Amser i fyfyrio - i ystyried materion pwysig.

Amser i ymateb - i fynd â gwaith y Tapestri yn ôl i'n hysgolion.

Amser i rannu a gweithio mewn partneriaeth.

**Prosiect Cymru'n Cyd-dynnu**

Mae prosiect Cymru'n Cyd-dynnu yn gyfres o bedair gwers sy'n ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â deall Islam. Mae'r adnodd yn cynnwys DVD a chynlluniau gwersi sydd wedi'u defnyddio gan ddysgwyr ym Mlynyddoedd 9 a 10 mewn ysgolion yng Nghaerdydd.

Y pedwar prif amcan craidd yw:

- Gwrthsefyll anoddefgarwch ac eithafiaeth
- Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch negeseuon di-drais Islam
- Lleihau rhagfarn a gwahaniaethu rhwng crefyddau a diwylliannau
- Meithrin parch a goddefgarwch at bawb

Dywedodd staff a dysgwyr fod eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch pobl eraill wedi gwella a bod y prosiect wedi peri iddynt fyfyrio ynghylch materion sy'n ymwneud â rhagfarn, gwahaniaethu ac anoddefgarwch. http://www.got.uk.net/

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- adolygu'r modd y mae'r ysgol yn cyflwyno'r cwricwlwm er mwyn canfod sut mae'n datblygu ac yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol, yn ehangu ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr drafod a dadlau ynghylch materion sy'n ymwneud â hunaniaeth ac amrywiaeth, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd, ffydd a chredo. Tynnir sylw at y cyfleoedd yn y cwricwlwm yn y ddogfen ganllawiau 'Undod ac Amrywiaeth' a gyhoeddwyd yn 2010. http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/guidanceresources/unitydiversity/?skip=1&lang=cy
- rhoi anogaeth ym mhob maes pwnc i ddefnyddio adnoddau sydd wedi'u rhestru ar wefan cymdeithasau'r pynciau. Mae hyn yn cynnwys adnoddau ar gyfer pob un o'r pynciau canlynol sydd wedi'u nodi fel rhai a fydd o gymorth i athrawon cynradd ac uwchradd:
  - Addysg Grefyddol - NATRE
  - Celfyddyd a Dylunio - NSEAD
  - Cerddoriaeth - NAME
  - Daearyddiaeth - GA
  - Drama - ND
  - Hanes - HA

- Saesneg (Cynradd) - UKLA
- Saesneg (Uwchradd) NATE
- Cymraeg - Ymgynghorwyr y Gymraeg
- **Anghenion Dysgu Ychwanegol** - Mae'r adnoddau ar gyfer pob un o'r pynciau sydd wedi'u rhestru wedi cael eu hadolygu gan nasen i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio gyda phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig.

http://www.subjectassociation.org.uk/index.php?page=78

**CAM GWEITHREDU GAN YR YSGOL: Ystyried defnyddio adnoddau cwricwlwm sydd wedi'u dangos yn Atodiad 1.**

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn:**
**Cwestiwn Allweddol 2 Darpariaeth**

**2.1.4 addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang**

**2.4.1 ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth**

## ii) Dimensiynau trawsgwricwlaidd

Mae'r Cwricwlwm Cymreig a Cymru, Ewrop a'r Byd, ac Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn gallu cyfrannu'n benodol at atal eithafiaeth dreisgar:

Mae'r Cwricwlwm Cymreig a Cymru, Ewrop a'r Byd yn ymdrin ag amryw o faterion sy'n gysylltiedig â materion byd-eang a byw mewn Cymru amlddiwylliannol.

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- adolygu'r dull o gyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig a Cymru, Ewrop a'r Byd.
  Dysgu ar Draws y Cwricwlwm: Y Cwricwlwm Cymreig (7-14) a Cymru, Ewrop a'r Byd (14-19)

Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn cynnig nifer o gyfleoedd i ysgolion ddelio ag ystod eang o faterion.

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- adolygu'r modd y mae'r ysgol yn cyflwyno ABCh ar gyfer pob Cyfnod Allweddol ac adnabod cyfleoedd i hyrwyddo cydlyniant cymunedol Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru. Cyhoeddwyd 2008 http://new.wales.gov.uk/psesub/home/resources/documents/pseframework/?lang=cy
- ymchwilio i gyfleoedd i ategu rhaglen ABCh yr ysgol drwy drafod y rhaglen a gyflwynir gan Swyddog Cyswllt yr Heddlu ar gyfer Cymuned yr Ysgol

**'One Extreme to Another'**

Trodd **Ysgol Penfro** at y GW Theatre Company a gyflwynodd gynhyrchiad rhyngweithiol o'r enw **'One Extreme To The Other'** ar gyfer myfyrwyr y chweched dosbarth. Dangoswyd gwahanol senarios i'r myfyrwyr gan gyflwyno stori am nifer o ffrindiau sy'n wynebu amryw o sefyllfaoedd fel rhai lle maent yn dod i gysylltiad â grwpiau hiliol asgell dde, eithafwyr Islamaidd, croestynnu rhwng galwadau personol a galwadau gwaith a phwysau teuluol. Roedd yn cynnig cyfle i drafod a dadlau ynghylch pam y gwnaeth cymeriadau ddewisiadau penodol a beth oedd yn dylanwadu ar eu hymddygiad. Roedd y cynhyrchiad hwn yn rhan o raglen yr ysgol ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru/ABCh. Drwy ddefnyddio'r deunydd addysgu cysylltiedig roedd athrawon yn gallu ymdrin wedyn â materion a godwyd yn y cynhyrchiad fel rhan o'r astudiaethau ar gyfer ABCh a Cymru, Ewrop a'r Byd.

Mae ADCDF yn rhoi fframwaith clir ar gyfer hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang.

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- adolygu'r dull o gyflwyno ADCDF. Gweler 'ESDGC: A common Understanding for Schools' (2008) http://www.esd-wales.org.uk/cymraeg/welcome.asp
- cyfeirio at 'Diweddariad ar arolygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang'. Cyhoeddwyd gan ESTYN (2006) www.estyn.co.uk/.../cy_Update_on_inspecting_education_for_sustainable_development_and_global_citizenship_in_schools_2006

**Prosiect In Focus**

Mae ADCDF yn rhan annatod o bob agwedd ar y ddarpariaeth yn **Ysgol Pentrehafod, Abertawe** a nodwyd ei bod yn 'nodwedd ragorol' yn adroddiad Estyn am yr ysgol (Ionawr 2007). Mae ADCDF wedi'i hintegreiddio ym mhob rhan o'r cwricwlwm mewn amryw o brosiectau democratiaeth ac mewn cysylltiad â'r cyngor ysgol, adfywio cymunedol a chysylltiadau rhyngwladol.

Cydweithiodd grŵp o fyfyrwyr a oedd yn astudio ar gyfer TGAU mewn Astudiaethau'r Cyfryngau yng Nghyfnod Allweddol 4 â'r Grŵp Datblygu Cynaliadwy yng Nghyngor Dinas Abertawe ar y prosiect **In Focus** a oedd â'r amcan o dynnu sylw at bwysigrwydd dinasyddiaeth fyd-eang.

Roedd y prosiect wedi'i seilio ar y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Tasg y myfyrwyr oedd cyflwyno gwybodaeth ac ymateb i faterion allweddol a oedd yn gysylltiedig â Masnach Deg.

Mae'r ysgol gyfan wedi bod yn ymwneud â hyrwyddo Masnach Deg ac mae hyn wedi galluogi dysgwyr i roi eu gwybodaeth ar waith, gan ddylanwadu ar eu dewisiadau a'u penderfyniadau fel defnyddwyr yn ogystal â'u helpu i ddeall effeithiau masnach ar eu hunaniaethau ac ar ddiwylliannau pobl sy'n ymwneud â chynhyrchu.

**CAM GWEITHREDU GAN YR YSGOL: adolygu a datblygu ymhellach y ddarpariaeth cwricwlwm ar gyfer ABCh, ADCDF a'r Cwricwlwm Cymreig gan ddefnyddio'r offer sydd ar gael gan APADGOS.**

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn: Cwestiwn Allweddol 2 Darpariaeth**

**2.1.1 bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr/y gymuned**

**2.1.3 darpariaeth y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig**

**2.1.4 addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang**

**2.4.1 ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth**

## iii) Datblygu sgiliau perthnasol

Mae datblygu sgiliau meddwl yn helpu dysgwyr i gydnabod yr angen am gydlyniant cymunedol ac am wrthsefyll negeseuon gan eithafwyr treisgar.

Yn benodol, mae'r fframwaith Sgiliau ar gyfer rhai rhwng 3 a 19 blwydd oed yng Nghymru'n canolbwyntio ar annog ysgolion i wneud y canlynol:

- datblygu meddwl ar draws y cwricwlwm
- datblygu cyfathrebu ar draws y cwricwlwm
- datblygu TGCh ar draws y cwricwlwm.

Bydd sgiliau ymchwilio annibynnol a chyfranogi effeithiol yn galluogi dysgwyr i werthuso tystiolaeth a gwneud penderfyniadau rhesymedig gan gydnabod credoau pobl eraill.

**Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:**

- cyfeirio at Undod ac Amrywiaeth. Atodiad 3 Cyfleoedd yn y Llwybrau Dysgu 14-19. Tudalennau 54-58 http://cymru.gov.uk/?skip=1&lang=cy
- canolbwyntio ar draws yr ysgol ar ddatblygu sgiliau beirniadol ar gyfer delio â gwybodaeth niweidiol am gymunedau penodol yn y cyfryngau ac ar y rhyngrwyd
- modelu'r modd y mae gweithredu heddychlon wedi sicrhau canlyniadau ar lefelau lleol, cenedlaethol neu ryngwladol
- adolygu'r Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru
- datblygu sgiliau meddwl http://wales.gov.uk/psesub/home/skills/?lang=cy
- sicrhau bod staff, dysgwyr a rhieni'n ymwybodol o'r materion sy'n ymwneud â risg a defnydd cyfrifol a'u bod yn defnyddio gwybodaeth ar-lein mewn modd doeth a chraff. Mae gwybodaeth ynghylch defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel yn http://www.ceop.gov.uk/
- rhoi cyfleoedd i ddysgwyr i ddangos llwyddiant drwy ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol

- adnabod a dathlu'r cynnydd gan ddysgwyr o ran dysgu sgiliau personol a chymdeithasol a chofnodi eu cyflawniadau yng nghyd-destun datblygu 'Sgiliau a Thueddiadau Cymdeithasol ac Emosiynol'. Gweler 'Dangos Llwyddiant: llawlyfr i ymarferwyr'. http://demonstratingsuccess.co.uk/

**CAM GWEITHREDU GAN YR YSGOL: adnabod anghenion a chyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau meddwl. Sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel a'u bod yn ymwybodol o e-ddiogelwch.**

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn: Cwestiwn Allweddol 2 Darpariaeth**

**2.1.2 darpariaeth ar gyfer medrau**

**2.2.1 ystod ac ansawdd dulliau addysgu**

# 6.4 Ymyrryd a chefnogi

**Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:**

**Cyflwyniad**

**Cyfrifoldebau**

**Deall beth sy'n digwydd**

**Prosesau herio a chefnogi**

**Enghreifftiau diweddar o bryderon sydd wedi codi mewn ysgolion**

**Cael cymorth wedi'i dargedu a chymorth arbenigol ar gyfer pobl ifanc**

**Datrys problemau a gwneud iawn am ddrwg**

## Cyflwyniad

Yn yr is-adran hon trafodir sut mae ysgolion yn gallu hyrwyddo lles unigolion a grwpiau o ddysgwyr drwy wneud y canlynol:

- defnyddio dulliau arferol i gynorthwyo dysgwyr ond, os yw hyn yn berthnasol, bod yn hyderus i geisio cymorth ychwanegol
- arfer barn broffesiynol wybodus i roi strategaethau ar waith mewn achosion unigol
- cael cymorth ehangach gan y gymuned a phartneriaid lleol eraill i weithio gydag unigolion neu grwpiau o ddysgwyr

## Cyfrifoldebau

Mae'r safonau proffesiynol i athrawon, fframweithiau contractol a fframweithiau diogelu i'r holl oedolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a chanlyniadau 'Gweithredu'r Hawliau' i bobl ifanc i gyd yn mynnu arfer dyletswydd gofal ac, os oes angen, cymryd camau i ddiogelu plant ac atal troseddu. Mae hyn yn cynnwys herio ymddygiad annerbyniol fel hiliaeth a bwlio sy'n gallu effeithio ar les dysgwyr unigol neu grwpiau o ddysgwyr a rhoi cymorth i'r rheini a allai fod yn agored i'r perygl o gael eu tynnu i mewn i weithgarwch eithafol treisgar.

## Deall beth sy'n digwydd

Y man cychwyn i ysgolion wrth sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswydd gofal fydd adnabod eu dysgwyr a'r gymuned ehangach a gwrando ac ymateb i'w hanghenion newidiol. Mae nifer o arwyddion neu fathau o ymddygiad y gallai ysgol ddod ar eu traws a allai beri pryder i staff ac a fyddai'n galw arnynt i arfer eu barn broffesiynol i benderfynu a oes angen ymateb. Bydd angen i staff ystyried pa mor **ddibynadwy** neu **arwyddocaol** y mae'r arwyddion ac a oes materion neu **ffactorau eraill** a allai ddangos bod rhywun yn agored i niwed.

Beth allai staff yr ysgol ei weld neu glywed amdano:

- Symbolau graffiti, ysgrifennu neu waith celf sy'n hyrwyddo negeseuon neu ddelweddau eithafol
- Dysgwyr yn cael mynediad at ddeunydd eithafol ar lein, yn cynnwys deunydd ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol
- Adroddiadau gan rieni am newid mewn ymddygiad, cyfeillgarwch neu weithredoedd a cheisiadau am gymorth
- Adroddiadau gan ysgolion sy'n bartneriaid, gwasanaethau awdurdodau lleol a'r heddlu am faterion sy'n effeithio ar ddysgwyr mewn ysgolion eraill
- Dysgwyr yn mynegi barn sy'n deillio o ideolegau a naratifau eithafol sy'n datgan safbwyntiau athrawiaethol/ideolegol a gwrthwynebol mwy anhyblyg
- Defnyddio geiriau eithafol neu dermau 'casineb' i allgáu eraill a chymell trais

## Prosesau herio a chefnogi

Gallai ymatebion fod ar ffurf **gweithredu yn yr ysgol** (er enghraifft, dileu graffiti sy'n ymwneud â chasineb, herio barnau sydd wedi'u mynegi drwy drafodaeth yn y dosbarth neu gefnogi dysgwyr drwy strategaethau lles arferol i ddysgwyr fel mentora gan gyfoedion) neu drwy **gynnwys asiantaethau allanol** er mwyn canfod a oes ffactorau eraill sy'n achosi risg i'w hystyried a phennu cynllun cymorth priodol. Mae'n bosibl bod y dysgwr yn wynebu heriau lluosog yn ei fywyd, ac mai dim ond un ohonynt yw bod yn agored i ddylanwadau gan eithafwyr treisgar. Dylai'r ysgol gyfrannu at asesiad aml-asiantaeth lle mae'n briodol, yn unol â phrotocolau'r awdurdod lleol. Mae'n hollbwysig cadw cysylltiadau cryf a chynnal gweithio aml-asiantaeth rhwng yr ysgol ac asiantaethau lleol eraill, fel y gwasanaeth cymorth ieuenctid, yr heddlu, gwahanol grwpiau crefyddol a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Cynghorir ysgolion i enwi aelod staff - sef yr aelod staff sy'n arwain ar ddiogelu plant - a fydd yn gallu cynnig cyngor i eraill ac arwain y broses o ymgysylltu â phartneriaid allanol os oes pryderon ynghylch y graddau y mae person ifanc yn agored i'r perygl o radicaleiddio a allai arwain at eithafiaeth dreisgar.

**CAMAU GWEITHREDU GAN YR YSGOL:**
**Adolygu systemau cymorth i ddysgwyr.**
**Cytuno'n lleol ar brotocolau rhannu gwybodaeth a strategaethau cefnogi a herio gyda thimau aml-asiantaeth.**
**Sicrhau bod aelod staff arweiniol wedi'i enwi.**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Arbenigol** | A ddefnyddir dulliau cyfiawnder adferol i helpu dysgwyr i adnabod drwg a gwneud iawn amdano? | Pa mor effeithiol yw darpariaeth yr ysgol o ran newid ymddygiad unigolion sy'n bwlio, yn hiliol neu wedi'u hysgogi gan gasineb? | Sut y gwyddoch a yw'r dysgwyr sydd yn y perygl mwyaf yn teimlo'n ddiogel? | A oes gan yr ysgol fynediad at gyngor a chymorth arbenigol ynghylch gwahanol fathau o eithafiaeth? | A wyddoch am ddysgwyr sy'n cael neu'n ymchwilio i farnau eithafol, yn enwedig y rheini sy'n cymell eithafiaeth dreisgar? |
| **Wedi'i dargedu** | A oes staff hyfforddedig arbenigol sy'n gallu helpu grwpiau sydd mewn perygl a delio â materion dadleuol? | A yw gweithdrefnau aml-asiantaeth a diogelu plant yr ysgol yn adnabod safbwyntiau ac ymddygiad eithafol ac yn cynnig modd i ymateb iddynt? | A yw grwpiau sydd mewn perygl wedi'u cynnwys mewn prosesau penderfynu yn yr ysgol? | A yw dysgwyr yn cael eu hyfforddi a'u cynorthwyo ynghylch arweinyddiaeth i gyfoedion a chyfryngu rhwng cyfoedion a datrys anghydfodau? | A yw dysgwyr sy'n mynegi barn eithafol yn cael eu herio drwy amryw o raglenni i grwpiau bach ac unigolion? |
| **Cyffredinol** | A oes mentor neu diwtor personol gan bob dysgwr? | A yw systemau rheoli ymddygiad yn cymell ac yn rhoi gwobr am ymddygiad cadarnhaol sy'n ategu gwerthoedd ac ethos cynhwysol yr ysgol? | A yw'r holl ddysgwyr yn cael eu hannog i fynegi eu barn a chymryd rhan mewn dadleuon a thrafodaethau? | A yw sgiliau cymdeithasol ac emosiynol yr holl ddysgwyr yn cael eu datblygu drwy raglenni a gweithgareddau cynlluniedig? | A yw'r holl ddysgwyr yn cael eu cymell ac yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn rhaglenni dinasyddiaeth weithredol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol? |

## Enghreifftiau o bryderon sydd wedi codi mewn ysgolion yng Nghymru rhwng 2008 a 2010

- Daeth nifer o ddysgwyr â deunydd gwrth-Semitaidd asgell dde eithaf i'r ysgol a oedd yn annog trais yn erbyn cymuned ethnig leol ac a oedd wedi'i ddosbarthu gan grŵp a oedd wrth gât yr ysgol ac ym maes parcio'r ysgol y noson flaenorol.
- Gwnaeth dysgwr mewn ysgol uwchradd ddatblygu gwefan a oedd yn hyrwyddo grwpiau eithafol asgell dde.
- Dechreuodd dysgwr o oed cynradd sôn yn y maes chwarae am 'ddyletswydd pob gwir Fwslim i baratoi am ryfel jihad wrth i ni dyfu' a chyfeirio'n edmygus at 'ferthyron 7/7'.
- Gwnaeth athro llanw adael llyfr yn llyfrgell yr ysgol sy'n cynnwys darn hir am ferthyrdod ac ynddo'r geiriau 'mae hyn yn dangos bod ceisio cael eich lladd a cheisio merthyrdod yn weithredoedd dilys a chlodwiw'.
- Yn ystod amser cylch mewn ysgol gynradd dywedodd nifer o ddysgwyr eu bod wedi cymryd rhan mewn ymosodiadau corfforol ar blant y tu allan i'r ysgol 'i wneud iddyn nhw fynd yn ôl i'w gwlad eu hunain'.

## Cael cymorth wedi'i dargedu a chymorth arbenigol i bobl ifanc

Efallai y bydd ysgolion yn canfod bod angen rhaglenni cymorth penodol ar gyfer unigolion neu grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i'r perygl o gael eu radicaleiddio fel mentora, neu fynediad at arbenigwyr sy'n gallu rhoi arweiniad ar faterion ffydd. Gallai'r rhain fod o fewn yr ysgol neu mewn partneriaeth ag eraill - er enghraifft, partneriaethau ysgol, gwasanaethau awdurdodau lleol, partneriaid yn y gymuned, Timau Troseddau Ieuenctid, yr heddlu neu gyrff gwirfoddol neu statudol eraill. Cynghorir ysgolion i gysylltu â'r Swyddog Amddiffyn Plant priodol yn yr awdurdod lleol a fydd wedyn yn cysylltu â'r swyddog heddlu dynodedig gyda'r Uned Diogelu'r Cyhoedd leol a fydd yn cynghori ac yn cynorthwyo'r unigolyn.

## g - angen gwybodaeth leol

### Astudiaeth Achos

Cafodd dau fachgen ym Mlynyddoedd 5 a 6 mewn ysgol gynradd yng Nghymru eu hatgyfeirio gan bennaeth yr ysgol wedi iddynt wneud sylwadau amhriodol wrth athrawon a chyd-ddysgwyr.

Roedd y sylwadau'n wrth-orllewinol ac yn ymddangos yn gefnogol i wrthsafiad i'r DU ac UDA wedi'i ysbrydoli gan Al Qa'ida. Hefyd daeth un o'r dysgwyr i'r ysgol ar Ddiwrnod y Llyfr wedi'i wisgo fel "Jihadi".

Cynhaliwyd cyfarfod yn gyntaf rhwng y pennaeth, y rhieni, yr heddlu, cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol a Chadeirydd ac Imam y mosg Swnnïaidd lleol. Penderfynwyd y byddai'r ymyriad yn cynnwys "sgyrsiau" mewn grŵp a rhai un-i-un gan yr Imam tra byddai'r bechgyn yn mynychu Madrassa ac yn cymryd rhan mewn prosiect ynghylch "derbyn" yn yr ysgol.

Dros y misoedd nesaf cafodd y bechgyn eu monitro gan bawb a oedd yn gysylltiedig ac roedd gwelliant sylweddol yn eu hagweddau meddwl a'u hymddygiad. Cyn cynnal asesiad terfynol o'r ymyriad, cafodd y teulu ei ddychwelyd i'w famwlad oherwydd mater a oedd yn anghysylltiedig.

### Astudiaeth Achos

Cafodd achos myfyriwr ym Mlwyddyn 11 mewn ysgol uwchradd yng Nghymru ei atgyfeirio i'r tîm PREVENT lleol gan bennaeth yr ysgol.

Mynegwyd pryderon am ei sylwadau yn ystod gwers hanes ynghylch Dydd y Cofio. Heriodd y dysgwr yr athro ynghylch pam y dylent ddathlu Dydd y Cofio a'r rhyfeloedd yn Affganistan ac Irac yn dal i fynd ymlaen a gwnaeth sylwadau i'r perwyl ei fod yn cyd-weld â Hitler mewn cysylltiad â gwrth-Semitiaeth.

Roedd yr ysgol hefyd yn pryderu bod y dysgwr yn arddel safbwyntiau hiliol a homoffobig cryf a oedd wedi'u mynegi mewn sawl ffordd. Roedd wedi bod yn gyfrifol am nifer o ddigwyddiadau hiliol o fewn yr ysgol.

Disgrifiwyd ef gan staff fel un a oedd yn hoffi bod ar ei ben ei hun ac yn brin iawn o ffrindiau a byddai'n aml yn herio staff pan oeddent ar ddyletswydd egwyl a'r tu allan i wersi ynghylch materion a oedd yn ymwneud â hil.

Trafodwyd y mater gan yr heddlu a gytunodd â'r ysgol fod y dysgwr yn agored i'r perygl o radicaleiddio.

Cynhaliwyd cyfarfod pellach rhwng y dysgwr, ei rieni, pennaeth yr ysgol a'r heddlu a chytunwyd ar raglen ymyrraeth a chymorth briodol.

Mae'r dysgwr yn dal i gael cymorth gan dîm PREVENT a staff yn yr ysgol.

## Datrys problemau a gwneud iawn am ddrwg

Mewn llawer o ysgolion mae cymorth i fodloni anghenion unigolion neu grwpiau wedi'i ddatblygu'n helaeth. Mae angen cymorth ar ddysgwyr hefyd i ddatblygu technegau ar gyfer cymorth personol, datrys anghydfodau a gwneud iawn am ddrwg.

Helpu dysgwyr ac oedolion i gael mynediad at gymorth. Efallai y bydd angen i ddysgwyr, rhieni a theuluoedd, staff ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud ag ysgolion gael mynediad at gyngor personol a chael gwybod at bwy y gallant droi am gymorth mewn cysylltiad â materion sy'n ymwneud ag atal eithafiaeth dreisgar.

- Adolygu'ch dull o gynorthwyo a herio disgyblion
  - Beth yw'r prif feysydd i chi ganolbwyntio arnynt er mwyn cynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed ac mewn perygl, fel yr ydych wedi'u dynodi yn eich naratif cyd-destunol?
  - Hybu ymwybyddiaeth dysgwyr o wasanaethau eirioli e.e. MEIC y llinell gymorth genedlaethol ar gyfer Eiriolaeth a Chyngor ar radffon 080880234546 neu drwy anfon neges destun ddi-dâl i 84001
  - Pa mor effeithiol yw'r cymorth personol i ddysgwyr unigol o ran adnabod ac ymateb i'r peryglon o gael eu tynnu i mewn i eithafiaeth?
  - A yw'ch gweithdrefnau diogelu plant yn cynnwys y perygl oddi wrth eithafiaeth ac yn darparu prosesau atgyfeirio ar gyfer cyngor a chymorth arbenigol?
  - A ydych wedi cytuno â phartneriaid aml-asiantaeth ynghylch sut byddai'r ysgol yn ymateb i bryderon am fyfyriwr y mae'n ymddangos ei fod yn agored i'r perygl o gael ei dynnu i mewn i eithafiaeth dreisgar?
  - A yw swyddog amddiffyn plant yr ysgol yn gwybod â phwy y dylai gysylltu yn yr Awdurdod Lleol os gwelir bod plentyn yn agored i niwed?

**CAM GWEITHREDU GAN YR YSGOL: adolygu'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr, staff a rhieni ar gyfer datrys problemau a chymorth personol.**

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn: Cwestiwn Allweddol 2 Darpariaeth**

**2.3.2 gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol**

**2.3.3 trefniadau diogelu**

# 6.5 Rheoli risgiau ac ymateb i ddigwyddiadau

**Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:**

**Cyflwyniad**

**Rheoli risgiau**

**Dylanwadau niweidiol ar ddysgwyr**

**Cael mynediad at gynnwys amhriodol drwy ddefnyddio TGCh**

**Grwpiau allanol yn defnyddio safle neu gyfleusterau'r ysgol**

**Ymateb i ddigwyddiadau**

**Digwyddiadau yn y newyddion lleol, cenedlaethol neu ryngwladol**

## Cyflwyniad

Mae'r is-adran hon yn helpu ysgolion i wneud y canlynol:

- sicrhau eu bod yn ymwybodol o beryglon posibl i ddysgwyr a'r gymuned ysgol ehangach ac yn eu rheoli'n effeithiol
- ymateb i ddigwyddiadau a allai effeithio ar gymuned yr ysgol

## Rheoli risgiau

Er bod achosion lle mae pobl ifanc wedi bod yn agored i negeseuon eithafol treisgar o fewn ysgolion yn brin iawn, mae'n berygl y mae angen i ysgolion fod yn ymwybodol ohono.

Gallai'r peryglon ddeillio o'r canlynol:

- dylanwadau niweidiol ar ddysgwyr - er enghraifft, oddi wrth lywodraethwyr, staff, rhieni, grwpiau allanol neu ddysgwyr eraill
- defnydd amhriodol o systemau TGCh
- grwpiau allanol yn defnyddio safleoedd ysgol.

Mae enghreifftiau o bwerau cyfreithiol a chontractol a allai fod yn berthnasol i atal eithafiaeth dreisgar yn Atodiad 4.

## Dylanwadau niweidiol ar ddysgwyr

Gallai llywodraethwyr a staff ysgol fynegi barn, dod â deunydd i'r ysgol, defnyddio gwefannau eithafol neu gyfeirio dysgwyr atynt, neu weithredu mewn ffyrdd eraill i hyrwyddo safbwyntiau eithafol treisgar. Mae'n bosib i'w gweithredoedd dorri'r safonau proffesiynol perthnasol, neu fod yn anghyfreithlon. Mewn achos o'r fath, dylent wynebu'r gweithdrefnau disgyblu perthnasol, a lle bydd yn briodol, dylai ysgolion sicrhau bod materion yn cael eu cyfeirio at yr awdurdod lleol a'r heddlu.

Dylai ysgolion adolygu'r canlynol:

- a yw trefniadau'r ysgol ar gyfer recriwtio a sefydlu (yn cynnwys llywodraethwyr) yn egluro rôl yr holl staff a llywodraethwyr o ran cadw dysgwyr yn ddiogel rhag niwed

- ei bod yn gweithredu'n unol â'r rheoliadau perthnasol ar gyfer ymddygiad a fetio staff, gan gynnwys gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
- a oes trefniadau effeithiol ar waith i fonitro a chofnodi digwyddiadau hiliol, bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn a throseddau casineb.

## Cam Gweithredu gan yr Ysgol: adolygu polisïau a phrosesau personél yr ysgol sy'n berthnasol

### Cael mynediad at gynnwys amhriodol drwy ddefnyddio TGCh

Mae gwefannau, gan gynnwys gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, yn gyfryngau pwysig i eithafwyr treisgar hyrwyddo eu neges a denu rhai atynt. Mae'r datblygu ar dechnolegau symudol yn her gynyddol i ysgolion gan fod dysgwyr yn gallu cael mynediad i wefannau o'r fath ar ffonau symudol a dyfeisiau rhyngweithiol eraill.

Dylai ysgolion wneud popeth yn eu gallu i hyrwyddo defnydd effeithiol a chyfrifol o TGCh ac atal staff neu ddysgwyr rhag cael mynediad at ddeunydd anghyfreithlon neu amhriodol drwy systemau TGCh yr ysgol, a hynny'n cynnwys rhoi systemau monitro priodol ar waith gyda darpariaeth i gysylltu â'r heddlu a phartneriaid eraill yn ôl yr angen.

### Camau gweithredu posibl gan yr ysgol:

Sicrhau bod systemau caledwedd a meddalwedd sy'n cael eu defnyddio yn yr ysgol yn briodol a bod cynnwys anghyfreithlon yn cael ei atal. Mae'r diffiniad o gynnwys anghyfreithlon yn cynnwys deunydd hiliol a deunydd casineb, a deunydd sy'n cymell trais neu ymosod ar unigolion neu sefydliadau ar sail crefydd, hil neu ryw

- adolygu **Polisi Defnydd Derbyniol** yr ysgol ar gyfer dysgwyr a staff i sicrhau bod y defnydd o ddeunydd sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth dreisgar wedi'i wahardd; a sicrhau bod dysgwyr, staff a llywodraethwyr yn glir ynghylch y polisi, arferion monitro a'r sancsiynau

- sicrhau bod staff, dysgwyr a rhieni'n ymwybodol o'r materion sy'n ymwneud â risg a **defnydd cyfrifol** a'u bod yn defnyddio gwybodaeth ar-lein mewn modd doeth a chraff
- cyngor am ddiogelwch ar y rhyngrwyd http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/esafety-home.htm

## Cam Gweithredu gan yr Ysgol: adolygu'r Polisi Defnydd Derbyniol

### Grwpiau allanol yn defnyddio safle neu gyfleusterau'r ysgol

Cafwyd achosion lle mae grwpiau sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth dreisgar wedi ceisio defnyddio safle ysgol ar gyfer ymgyrchu neu ddigwyddiadau eraill. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r perygl hwn a sicrhau bod polisi llogi'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn egluro gwerthoedd yr ysgol ac yn datgan yn glir na fydd unrhyw grŵp sydd â nodau sy'n groes i'r gwerthoedd hynny'n cael llogi'r cyfleuster.

Argymhellir y dylai ysgolion gydgysylltu'n gynnar â'r awdurdod lleol neu'r heddlu i gadarnhau dilysrwydd unrhyw grwpiau os oes ganddynt bryderon. Mae angen i ysgolion fod yn ymwybodol y gallai cyrff geisio defnyddio cyfleusterau'r ysgol dan enw gwahanol ac fe'u cynghorir i gysylltu â'r heddlu os oes ganddynt unrhyw amheuon am ddilysrwydd unrhyw gorff.
http://www.homeoffice.gov.uk/publications/counter-terrorism/proscribed-terror-groups/?view=Standard&pubID=765824

**Llogi safleoedd**

Llogwyd adeilad ysgol gynradd ar gyfer cyfarfod gan aelod o'r gymuned leol. Ni roddwyd esboniad o bwrpas y cyfarfod wrth archebu ond cafwyd gwybod wedyn mai ei bwrpas oedd trafod anghydfod rhwng dwy garfan mewn mosg lleol. Dirywiodd y cyfarfod nes i'r heddlu gael ei alw i adfer trefn gyhoeddus.

**CAM GWEITHREDU GAN YR YSGOL: adolygu polisi llogi'r ysgol a'r awdurdod lleol a sicrhau bod staff sy'n rheoli llogi yn yr ysgol yn gwybod at bwy y dylent droi am gyngor.**

## Ymateb i ddigwyddiadau

Nid yw'n debygol y bydd eithafiaeth dreisgar yn effeithio'n uniongyrchol ar y rhan fwyaf o ysgolion. Er hynny, mae rhai ysgolion a'u cymunedau wedi dod dan effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol y canlynol:

- digwyddiadau cenedlaethol fel cyrchoedd bomio 7/7 (a effeithiodd yn neilltuol ar ysgolion yn Llundain a Leeds)
- gwleidyddiaeth ryngwladol sy'n gysylltiedig â digwyddiadau fel goresgyn Irac, y sefyllfa yn Affganistan, Somalia, Gaza neu fannau eraill lle mae gwrthdaro
- digwyddiadau gwleidyddol domestig mewn gwledydd eraill sy'n berthnasol i gymunedau alltud penodol yn y DU
- gweithrediadau gwrthderfysgaeth lleol a thensiynau cysylltiedig yn y gymuned
- adroddiadau yn y cyfryngau am grwpiau gwleidyddol neu grefyddol sy'n cael eu hystyried yn unochrog
- achosion llys sydd wedi denu sylw mawr yn erbyn y rheini sydd wedi'u cyhuddo o gyflawni troseddau cysylltiedig â therfysgaeth.

Mae angen i ysgolion ddeall eu cymunedau er mwyn bod yn ymwybodol o'r hyn a allai effeithio ar ddysgwyr a bod yn barod i ymateb.

## Digwyddiadau yn y newyddion lleol, cenedlaethol neu ryngwladol

Yn sgil rhyw achlysur neu ddigwyddiad, gallai ysgol ddewis cynnal sesiynau i'r ysgol gyfan, grwpiau blwyddyn neu ddosbarthiadau er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i gael trafodaeth wybodus gan gynnwys:

- cael y ffeithiau'n glir - tystiolaeth yn hytrach na sïon
- deall cymhellion
- hyrwyddo hawliau dynol ac amddiffyniad cyfreithiol - rhyddid i lefaru a dilyn y drefn briodol i wneud cwynion.

Dylai ysgolion sicrhau hefyd fod cymorth personol ar gael i staff a dysgwyr y mae digwyddiadau'n cael yr effaith fwyaf arnynt.

Gellir troi at wasanaethau awdurdodau lleol a phartneriaid am y canlynol:

- cyngor, briffio neu gymorth gan yr heddlu neu asiantaethau eraill
- cymorth gan wasanaeth seicoleg addysgol i arweinwyr ysgol wrth ymateb i ddigwyddiadau tyngedfennol
- gwaith achos disgyblion unigol
- gwasanaethau corfforaethol i ddelio â'r cyfryngau
- cymorth o ran adnoddau dynol i ddelio â materion staff.

**Camau Gweithredu Posibl gan yr Ysgol:**

- Adolygu cynllun argyfwng yr ysgol gan gynnwys camau gweithredu ar ôl digwyddiadau i sicrhau bod ynddo brosesau priodol i gefnogi dysgwyr a staff.
- Adolygu'ch dull o reoli risgiau ac ymateb i ddigwyddiadau
  - Beth mae'r naratif cyd-destunol yn ei ddangos fel y prif risgiau y dylech gynllunio a pharatoi ar eu cyfer?
  - I ba raddau y mae'ch polisïau cyffredinol yn helpu i feithrin y gallu i wrthsefyll a gwrthod safbwyntiau a dylanwadau eithafol?
  - Pa mor dda yr ydych yn deall y ffactorau sy'n achosi cwynion ac ymddieithrio ymysg dysgwyr a beth rydych yn ei wneud i ymateb iddynt?
  - A oes unrhyw weithdrefnau aml-asiantaeth ar waith gennych a pha mor effeithiol y byddant yn yr holl amgylchiadau?

| Ffocws | Dylanwadau lleol niweidiol | TGCh | Ymateb i ddigwyddiadau lleol | Ymateb i ddigwyddiadau cenedlaethol neu ryngwladol |
|---|---|---|---|---|
| **Arbenigol** | Ym mhle byddai'r ysgol yn ceisio cymorth arbenigol er mwyn cael cyngor neu atgyfeirio? | A yw staff yn gwybod sut i gael mynediad at CEOPS neu wasanaethau arbenigol eraill os ceir ymddygiad risg uchel? | Â pha asiantaethau neu grwpiau y byddai'r ysgol yn cysylltu i gael ymateb aml-asiantaeth a chymunedol i ddigwyddiad eithafol? | A yw cynllun argyfwng yr ysgol yn cynnwys y risg o weithgarwch eithafol neu ddigwyddiad terfysgol? |
| **Wedi'i dargedu** | Sut mae'r ysgol yn cydweithio â phartneriaid i fonitro ac ymateb i grwpiau lleol a allai geisio achosi niwed? | Sut mae'r staff perthnasol yn monitro systemau TGCh am ddeunydd a allai fod yn niweidiol? | A yw tîm rheoli safle'r ysgol yn deall y risg posibl o ddefnydd cymunedol o'r safle gan grwpiau eithafol - a beth i'w wneud? | Pe byddai digwyddiad cenedlaethol neu fyd-eang yn achosi tensiwn o fewn neu rhwng cymunedau, sut byddai'r ysgol yn ymateb? |
| **Cyffredinol** | Sut y dangosir bod yr ysgol yn herio safbwyntiau eithafol a allai arwain at niwed - boed yn safbwyntiau'r dde eithaf, Islamoffobia, gwrth-Semitiaeth neu'n fath arall? | Sut mae'r ysgol yn datblygu sgiliau dysgwyr ar gyfer defnyddio'r cyfryngau a thechnoleg fodern? | Sut mae'r ysgol yn sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r tensiynau lleol posibl neu wirioneddol sy'n effeithio ar ddysgwyr yng nghymuned yr ysgol? | Pa mor dda y mae'r ysgol yn monitro ac yn ymateb i ddigwyddiadau cenedlaethol a byd-eang o bwys a allai effeithio ar ddysgwyr neu'r gymuned? |

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn:**
**Cwestiwn Allweddol 2 Darpariaeth**

**2.3.2 gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol**

**Cwestiwn Allweddol 3 Arweinyddiaeth**

**3.4.1 rheoli staff ac adnoddau**

## Canllawiau ar y cwricwlwm ac adnoddau sy'n ymwneud â datblygu cydlyniant cymunedol

| Cwricwlwm | Disgrifiad | Adnodd / Cyfeiriad gwefan |
|---|---|---|
| Prosiect AtGyfnerthu | Addysgu materion dadleuol | http://www.re-silience.org.uk/ http://www.re-silience.org.uk/index.php?lang=cy |
| ABCh | Addysgu materion sensitif | http://wales.gov.uk/psesub/home/holisticpse/delivery/teachingsensitiveissues/?lang=cy#named2 |
| ADCDF | Cyfeiriadur ar gyfer gweithgareddau ADCDF<br>GCaD - Gweithgareddau ar gyfer ADCDF | http://www.esd-wales.org.uk/cymraeg/welcome.asp<br>http://www.ngfl-cymru.org.uk/eng/global_citizenship_-_activities_for_esdgc_-_geog<br>http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-ks3-home/vtc-ks3-geography(2)/vtc-ks3-geography-tomorrow_s_citizens/global_citizenship_-_activities_for_esdgc_-_geog.htm |
| Cyffredinol | Addysgu materion dadleuol | http://www.oxfam.org.uk/education/teachersupport/cpd/controversial/ |
| Council for Subject Associations | Dolen ar gyfer adnoddau addysgu sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol | http://www.subjectassociation.org.uk/index.php?page=78 |
| Celfyddyd a Dylunio | Prosiectau wedi'u seilio ar ddiwylliant, treftadaeth a chrefydd | http://www.subjectassociation.org.uk/index.php?page=138 |
| ABCh (Dinasyddiaeth) | Topigau cydlyniant cymunedol | http://www.subjectassociation.org.uk/index.php?page=106 |

| Cwricwlwm | Disgrifiad | Adnodd / Cyfeiriad gwefan |
|---|---|---|
| Drama | Prosiectau drama sy'n ymwneud ag amrywiaeth ddiwylliannol, mewnfudo, trais | http://www.subjectassociation.org.uk/index.php?page=97 |
| Saesneg | Hoodie Trouble | http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-ks3-home/vtc-ks3-eng(2)/vtc-ks3-eng-oracy/vtc-ks3-eng-oracy-group_discussion/vtc_-_ks3_-_english_-_hoodie_trouble.htm |
| | School Rules | http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-ks3-home/vtc-ks3-eng(2)/vtc-ks3-eng-oracy/vtc-ks3-eng-oracy-group_discussion/vtc_-_ks3_-_english_-_school_rules.htm |
| | Welsh Citizenship Test | http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-ks3-home/vtc-ks3-eng(2)/vtc-ks3-eng-oracy/vtc-ks3-eng-oracy-group_discussion/vtc_-_ks3_-_english_-_welsh-citizenship-test.htm |
| | Who gets baby | http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-ks3-home/vtc-ks3-eng(2)/vtc-ks3-eng-oracy/vtc-ks3-eng-oracy-group_discussion/vtc_-_ks3_-_english_-_who_gets_the_baby.htm |
| | You are what you wear | http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-ks3-home/vtc-ks3-eng(2)/vtc-ks3-eng-oracy/vtc-ks3-eng-oracy-group_discussion/vtc_-_ks3_-_english_-_you_are_what_you_wear.htm |

| Cwricwlwm | Disgrifiad | Adnodd / Cyfeiriad gwefan |
|---|---|---|
| Daearyddiaeth | Materion dadleuol a materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth<br>Mudo<br>Migration | http://www.subjectassociation.org.uk/index.php?page=115<br>http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-ks3-home/vtc-ks3-geography(2)/vtc-ks3-geography-population/migration.htm |
| Hanes | Amrywiaeth, hanes Islamaidd ac amryw o brosiectau<br>Materion Hil yn America<br>The race issue in America | http://www.subjectassociation.org.uk/index.php?page=79<br>http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-ks4-home/vtc-ks4-history(2)/vtc-ks4-history-usa_1929_1990/the_race_issue_in_america_-_irf59.htm |
| Cerddoriaeth | Cerddoriaeth Islamaidd<br>Gwranda<br>Listen up (music from around the world) | http://www.subjectassociation.org.uk/index.php?page=124<br>http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-ks3-home/vtc-ks3-music/vtc-ks3-music-appraising-ns/listen-up-tinopolis-ks3.htm |
| ABCh | Hiliaeth, 7/7, Hawliau Dynol, Islamoffobia<br>Amrywiaeth Gymunedol. Hawliau a Chyfrifoldebau o ran Amrywiaeth | http://www.subjectassociation.org.uk/index.php?page=147<br>Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan - a gyflwynir gan Swyddogion Cyswllt yr Heddlu â Chymunedau Ysgol http:www.schoolbeat.org http://www.schoolbeat.org/?L=3 |
| Addysg Grefyddol | AtGyfnerthu<br>Hiliaeth, amrywiaeth<br>Is it fair? | http://www.re-silience.org.uk/index.php?lang=cy<br>http://www.subjectassociation.org.uk/index.php?page=88<br>http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-ks4-home/vtc-ks4-re/vtc-ks4-re-wjec_rs/is-it-fair-wjec.htm |

| Cwricwlwm | Disgrifiad | Adnodd / Cyfeiriad gwefan |
|---|---|---|
| Addysg Grefyddol (parhad) | Ein byd<br>Our World | http://www.ngfl-cymru.org.uk/vtc/2009-10/re/re4/index.html |
| | Crefyddau'r Dwyrain a'r Gorllewin<br>Eastern and Western Religions | http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-aas-home/vtc-aas-re/vtc-as-re-cynnal-buddhism-judaism.htm |
| Gwyddoniaeth | 1001 inventions - discover the Muslim Heritage In Our World | http://www.1001inventions.com/ |
| Gwyddoniaeth | Prosiect cwricwlwm ar wyddonwyr Mwslimaidd - 'City 1250' | http://www.ase.org.uk/about-ase/ |
| Cymdeithaseg | Caffael Diwylliant<br>Acquiring Culture | http://www.ngfl-cymru.org.uk/vtc/ngfl/2007-08/sociology/cynnal/ffryntend.html?iaith=welsh&u=1 |
| | Deall Diwylliant<br>Understanding Culture | http://www.ngfl-cymru.org.uk/vtc/ngfl/2007-08/sociology/cynnal/ffryntend.html?iaith=welsh&u=2 |
| | Cymuned a Diwylliant<br>Community and Culture | http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-aas-home/vtc-as_sociology/vtc-as_sociology-acquiring_culture/vtc-as_sociology-acquiring_culture-community.htm |
| | Cymuned a Crefydd<br>Community and Religion | http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-aas-home/vtc-as_sociology/vtc-as_sociology-understanding_culture/vtc-as_sociology-understanding_culture-religion.htm |
| | Anghydraddoldeb Cymdeithasol<br>Social Inequality | http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-aas-home/vtc-as_sociology/vtc-as_sociology-society_today/vtc-as_sociology-social_divisions |
| Cymraeg | Amrywiaeth ddiwylliannol, gwrthdaro | http://www.cymdeithasycymod.org.uk/newidbyd3.pdf<br>http://www.crawc.co.uk/item/195<br>http://www.crawc.co.uk/chwefror-10 |

| Cwricwlwm | Disgrifiad | Adnodd / Cyfeiriad gwefan |
|---|---|---|
| Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) | Cymru, Ewrop a'r Byd | http://www.wbq.org.uk/home?diablo.lang=cym |
| Trawsgwricwlaidd | Ffoaduriaid | Shared Futures http://www.sharedfutures.org.uk/index2.html |
| Trawsgwricwlaidd | Trechu Casineb Hiliol Cyfundrefnol, Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.<br>Gwybodaeth i herio mythau cyffredin am bobl o grwpiau lleiafrifol. | www.equalityhumanrights.com/hafan |
| Trawsgwricwlaidd | Amrywiaeth a Deialog Cyfeiriadur ar-lein o brosiectau ac adnoddau sydd â'r amcan o ddod â phobl ifanc o wahanol grefyddau a chefndiroedd at ei gilydd. | www.diversityanddialogue.org.uk |
| Trawsgwricwlaidd | **Canolfan yr Holocost ac Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost** Rhaglenni allgymorth a defnyddiau addysgu ar gyfer trechu rhagfarn a hiliaeth. | www.holocaustcentre.net www.het.org.uk/content.php |
| Trawsgwricwlaidd | **Global Dimension** - DEA Adnoddau sy'n hybu dealltwriaeth ryngwladol a rhyngddiwylliannol. | www.globaldimension.org.uk |

| Cwricwlwm | Disgrifiad | Adnodd / Cyfeiriad gwefan |
|---|---|---|
| Trawsgwricwlaidd | **Y Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg a chysylltu ysgolion** - cyngor, canllawiau a chymorth ariannu | http://www.britishcouncil.org/cy/wales.htm |
| Trawsgwricwlaidd | **Hiliaeth, gwrth-Semitiaeth ac Islamoffobia** - Teachernet Adnoddau i helpu ysgolion i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â hiliaeth, gwrth-Semitiaeth ac Islamoffobia. | www.teachernet.gov.uk/wholeschool/behaviour/tacklingbullying/racistbullying/developing/racismantisemitism |
| Trawsgwricwlaidd | **Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth** | http://www.srtrc.org/educational/school-visits/wales |
| Trawsgwricwlaidd | **Radical Middle Way** Gwybodaeth, adnoddau a digwyddiadau sydd â'r amcan o wella'r ddealltwriaeth o Islam ac sy'n berthnasol i Fwslimiaid ifanc ym Mhrydain. | www.radicalmiddleway.co.uk |
| TGCh | Adnodd e-ddiogelwch - ystyried sut i aros yn ddiogel ar lein | http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/irf108<br>http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/vtc-home/vtc-ks2-home/vtc-ks2-ict/ks2-ict-keeping-safe-online.htm |

## Adnoddau cwricwlwm sy'n ymwneud yn benodol â PREVENT

| Cwricwlwm | Disgrifiad | Cysylltiad ag agenda PREVENT | Cysylltiad â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion | Cysylltiad ag Estyn | Adnodd / Cyfeiriad gwe |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweith-gareddau Prevent i ysgolion yn benodol | Canllawiau i swyddogion yr heddlu a staff heddlu sy'n gweithio mewn ysgolion | Yr holl amcanion | | CA 1.2<br>CA 2.1<br>CA 2.4 | Prevent, yr Heddlu ac Ysgolion - Canllawiau i swyddogion yr heddlu a staff heddlu i helpu ysgolion i gyfrannu at atal eithafiaeth dreisgar. Adnoddau wedi'u nodi ar dudalennau 19 - 33. www.pnct.pnn.police.uk/prevent.html |
| Astudiaethau achos estynedig | Enghreifftiau o waith atal sy'n ymwneud â gwetihgareddau eithafol sy'n mynd ymlaen mewn ysgolion a cholegau dan arweiniad swyddogion yr heddlu a staff heddlu | Yr holl amcanion | | CA 1.2<br>CA 2.1<br>CA 2.4 | Prevent, yr Heddlu ac Ysgolion - Canllawiau i swyddogion yr heddlu a staff heddlu i helpu ysgolion i gyfrannu at atal eithafiaeth dreisgar. www.pnct.pnn.police.uk/prevent.html |
| Cydlyniant Cymunedol ar Waith | Gweith-gareddau ymarferol ac astudiaethau achos | | | CA 1.2<br>CA 2.1<br>CA 2.4 | Canllaw cynllunio cwricwlwm ar gyfer ysgolion - Cydlyniant Cymunedol ar Waith. QCDA/10/4642 ISBN 978-1-84962-305-6 Cyhoeddwyd gyntaf Chwefror 2010 |

## Adnoddau ychwanegol

| Topig | Disgrifiad | Adnodd / Cyfeiriad gwe |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | Arferion Da yng Nghymru - prosiectau wedi'u noddi â chyllid Cydlyniant Cymunedol | http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/communitycohesion/good/?lang=cy |
| Sefydliad Cydlyniant Cymunedol (iCoCo) | Sefydlwyd Sefydliad Cydlyniant Cymunedol yn 2005 i ymdrin mewn ffordd newydd â hil, amrywiaeth ac amlddiwylliannaeth. Mae ein gwaith yn ymwneud yn bennaf â meithrin cysylltiadau cymunedol cadarnhaol a chytûn, gan gymhwyso gwaith ymchwil er mwyn datblygu ymarfer yn barhaus a meithrin gallu yn yr holl asiantaethau ac unigolion sy'n gysylltiedig. Mae iCoCo yn bartneriaeth ddi-elw sydd â'r amcan o feithrin gallu ar bob lefel ac ym mhob asiantaeth leol a chenedlaethol i hyrwyddo cydlyniant cymunedol | http://www.cohesioninstitute.org.uk/home |

| Topig | Disgrifiad | Adnodd / Cyfeiriad gwe |
|---|---|---|
| Y Swyddfa Diogelwch a Gwrth-derfysgaeth: Gwybodaeth am y bygythiad cyfredol oddi wrth derfysgaeth | | (http://www.homeoffice.gov.uk/Cymraeg) |
| Anti-defamation League | Gwybodaeth am symbolau graffig a rhifol a ddefnyddir gan grwpiau'r dde eithaf. | www.adl.org/hate_symbols/Unsere.asp |
| Gwasanaeth Diogelwch | Gwybodaeth am y broses radicaleiddio a grwpiau eithafol gan gynnwys Al Qa'ida. | www.mi5.gov.uk/output/Page19.html |

## Pwerau Cyfreithiol a Chontractol

### Ymddygiad staff

Mae Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Athrawon Cofrestredig Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn nodi'n glir y prif egwyddorion ar gyfer ymarfer ac ymddygiad da i athrawon cofrestredig yng Nghymru.

Byddai unrhyw weithred sy'n groes i ddeddfwriaeth neu safonau'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn gallu arwain at gychwyn gweithdrefnau disgyblu perthnasol.
http://www.gtcw.org.uk/gtcw/index.php/cy/news-revised-code

### Polisi ymddygiad ysgol

Wrth osod polisi ymddygiad ysgol, mae llywodraethwyr, drwy gydweithio â'r pennaeth, staff a dysgwyr, yn gallu gosod fframwaith sy'n ategu'r gwerthoedd arweinyddiaeth sydd wedi'u hargymell yn y pecyn cymorth hwn.

### Chwilio am eitemau amhriodol a'u cymryd

Dan Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 mae gan ysgolion bwerau i chwilio disgybl heb ganiatâd am:

(a) eitem y mae adran 139 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn gymwys iddi (cyllyll a llafnau etc.), neu

(b) arf bygythiol (yn unol â'r ystyr sydd yn Neddf Atal Troseddu 1953).

Mae adran 550AA o Ddeddf Addysg 1996 yn datgan y dylid trosglwyddo eitemau a geir i gwnstabl o'r heddlu a gaiff eu cadw neu gael gwared arnynt.

Mae canllawiau penodol ar gael ar chwilio disgyblion am arfau (www.teachernet.gov.uk/docbank/index.cfm?id=11454).

Gall ysgolion hefyd ddefnyddio pwerau atafaelu dan y gyfraith gyffredin dan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ar gyfer unrhyw eitem gan gynnwys dillad, arwyddion neu liwiau. Mae adran 94 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn darparu, pan gaiff eitem sydd gan ddisgybl neu sydd yn ei

feddiant ei hatafaelu, a bod yr eitem yn cael ei chadw am unrhyw gyfnod neu y ceir gwared arni fel cosb disgyblu, na fydd y person sy'n atafaelu, yn cadw neu'n cael gwared ar yr eitem yn agored i ddwyn unrhyw achos yn ei erbyn ar yr amod bod yr atafaelu'n gyfreithlon (www.teachernet.gov.uk/wholeschool/behaviour/schooldisciplinepupilbehaviourpolicies/nonstatguidanceforheadsandstaff/confiscation/).

**Polisïau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion**

Yn Chwefror 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gylchlythyr cyfarwyddyd newydd 006/2008 o'r enw Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar Bolisïau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion. wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100223schoolunif ormen.pdf. Roedd y cylchlythyr cyfarwyddyd wedi'i fwriadu ar gyfer cyrff llywodraethu ysgol a phenaethiaid, ac roedd yn canolbwyntio ar nifer o faterion. Ymhlith y rhain yr oedd sicrhau bod sylw dyladwy'n cael ei roi i sicrhau triniaeth gyfartal i fechgyn a merched ac i ddysgwyr o gefndiroedd ethnig a chrefyddol gwahanol a dysgwyr anabl mewn cysylltiad â pholisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Gall ysgolion wahardd eitemau dillad sy'n groes i reolau ar wisg ysgol. Mae cyfraith achosion yn dangos bod rhaid sefydlu'r rheolau hyn mewn modd sensitif drwy ymgynghori â phartneriaid yn yr awdurdod lleol a'r gymuned neu byddant yn dod yn destun cŵyn ynddynt eu hunain.

**Unigolyn neu grŵp yn tresmasu ar safle ysgol i hyrwyddo taflenni neu weithgareddau yn groes i ddymuniadau pennaeth yr ysgol**

Mae adran 547 o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu y bydd unrhyw berson sydd heb awdurdod cyfreithlon yn bresennol mewn mangre y mae'r adran hon yn gymwys iddi ac sydd yn achosi neu'n caniatáu niwsans neu aflonyddu er blinder i bersonau sy'n defnyddio'r fangre honno'n gyfreithlon (pa un a yw unrhyw bersonau o'r fath yn bresennol ar y pryd neu beidio) yn euog o drosedd (www.teachernet.gov.uk/wholeschool/healthandsafety/schoolsecurity/).

## Cyrff a waharddwyd yn gwneud cais am ddefnyddio safle ysgol

Mae angen i ysgolion sicrhau na fydd unrhyw gorff sydd ar y rhestr o gyrff sydd wedi'u gwahardd ar y pryd yn cael mynediad i safle'r ysgol nac yn ei ddefnyddio.

Rhoddwyd yr wybodaeth am nodau'r grwpiau i'r Senedd pan gawsant eu gwahardd. Mae angen i ysgolion fod yn ymwybodol y gallai cyrff geisio defnyddio cyfleusterau ysgol dan enw gwahanol ac fe'u cynghorir i gysylltu â'r heddlu os oes ganddynt unrhyw amheuon ynghylch dilysrwydd unrhyw gorff.
http://www.homeoffice.gov.uk/publications/counter-terrorism/proscribed-terror-groups/?view=Standard&pubID=765824

## Rhyddid i Lefaru

Mae adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 yn darparu y bydd pawb sy'n ymwneud â llywodraethu sefydliadau Addysg Bellach yn cymryd camau rhesymol ymarferol i sicrhau rhyddid i lefaru o fewn y gyfraith i aelodau, myfyrwyr, cyflogeion a siaradwyr sy'n ymweld. Er nad yw'r ddyletswydd hon yn cyfeirio'n uniongyrchol at ysgolion, mae'n gymwys yn uniongyrchol i golegau Addysg Bellach.
Mae'r ddyletswydd yn cynnwys sicrhau, hyd y gellir yn rhesymol, na wrthodir defnydd o safleoedd, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u meddiannu gan undeb y myfyrwyr, oherwydd credoau neu bolisïau.

## Atal defnydd o wefannau eithafol treisgar

Gall yr ysgol fynnu y bydd dysgwyr a staff yn cydymffurfio â Pholisïau Defnydd Derbyniol sy'n nodi'n glir fod mynediad i wefannau o'r fath yn annerbyniol. Mae defnyddio cyfrifiaduron ysgol i anfon cyhoeddiadau eithafol treisgar drwy'r e-bost at eraill yn drosedd.

## Cofrestru myfyrwyr

Bydd angen gwirio gofynion Asiantaeth Ffiniau'r DU wrth dderbyn myfyrwyr dros 16 oed sy'n byw'n annibynnol ar eu rhieni nad ydynt yn ddinasyddion y DU/Ewrop.
http://www.ukba.homeoffice.gov.uk/

## Cyfrifoldebau Llywodraethwyr

Os bydd unrhyw faterion penodol y mae ar lywodraethwyr angen cyngor amdanynt, dylent chwilio yn 'Canllaw ar y Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion'. Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio fel cyfeirlyfr gan lywodraethwyr pan fyddant yn chwilio am gyngor. Dylai pob llywodraethwr ysgol wybod a deall ei rolau a'i gyfrifoldebau cyfreithiol a'r berthynas rhwng y rhain a chyfrifoldebau pennaeth yr ysgol, yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, a phartïon eraill fel awdurdodau esgobaethol a sefydliadau, lle y bo'n briodol. http://www.governorswales.org.uk/gyfraith/

## Enghreifftiau o adroddiadau thematig perthnasol gan Estyn:

http://www.estyn.gov.uk/cy_thematicreports.asp

**Ebrill 2008 hyd y presennol**

- Ansawdd a pherthnasedd hyfforddiant staff i gyflwyno addysg sylfaenol i oedolion a Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (Mawrth 2010).
- The impact on LEAs of growing numbers of children of migrant workers particularly from EU accession states. (Hydref 2009).
- Effaith polisïau cydraddoldeb hiliol ysgolion (Mai 2009).
- Effaith cyllid 'datgloi'r potensial' ar hyrwyddo'r defnydd o ysgolion arbennig fel canolfannau adnoddau â ffocws cymunedol (Ebrill 2009).
- Addysg gorfforol ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu (Chwefror 2009).
- Lleoliadau awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â darpariaeth breswyl gysylltiedig 52 wythnos (Hydref 2008).

**Ebrill 2007 - Mai 2008**

- English for speakers of other languages - the impact of increased demand (Mehefin 2008).
- Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion. (Mawrth 2008).
- Cyfranogiad merched mewn gweithgarwch corfforol mewn ysgolion (Gorffennaf 2007).

**Cyn Ebrill 2007**

- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 - Arfer ysgolion ac awdurdodau addysg lleol wrth weithredu'u dyletswyddau (Chwefror 2007).
- Arfarnu canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (Chwefror 2007).
- Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion: Arolwg o arfer effeithiol (2006).
- Cyfle cyfartal ac amrywiaeth mewn ysgolion yng Nghymru (2005).
- Addysg Dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr (2005).
- Arolwg Thematig o Unedau Cyfeirio Disgyblion a Darpariaeth Debyg (2005).
- Arfer Orau wrth Ddatblygu Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig ac Ysgolion yn Cyflwyno'r Camau y Cytunwyd arnynt (2004).
- Adroddiad Arolwg: Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAG) - Defnyddio Adnoddau'n Effeithiol (2003).

## Rhestr gyfeirio o'r holl weithgareddau yn erbyn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn

| **Camau gweithredu** | **Pwy** | **Cwestiwn Allweddol y Fframwaith Arolygu Cyffredin** | **1** | **2** | **3** | **4** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu gweledigaeth ac ethos clir | Penaethiaid/ Cyrff Llywodraethu | 2.3.1<br>2.1.4<br>2.4.1 | | | | |
| Hyrwyddo gwerthoedd craidd cymdeithas ddemocrataidd a modelu'r broses | Penaethiaid/ Cynghorau Ysgol | 2.3.1 | | | | |
| Meithrin dealltwriaeth staff o'u rolau a hyder wrth reoli cydlyniant cymunedol | Penaethiaid/ athrawon/ partneriaid | 2.1.1<br>2.3.3<br>3.3.1 | | | | |
| Dyfnhau'r ymgysylltu â'r cymunedau | Llywodraethwyr/ Penaethiaid | 1.2.3<br>3.3.1 | | | | |
| Defnyddio ac addasu pynciau'r cwricwlwm i ymdrin â chydlyniant cymunedol | Athrawon | 2.1.4<br>2.4.1 | | | | |
| Dimensiynau trawsgwricwlaidd | Penaethiaid/ athrawon | 2.1.1<br>2.1.3<br>2.1.4<br>2.4.1 | | | | |
| Datblygu sgiliau perthnasol | Penaethiaid/ athrawon | 2.1.2<br>2.2.1 | | | | |

| Camau gweithredu | Pwy | Cwestiwn Allweddol y Fframwaith Arolygu Cyffredin | 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth i ddysgwyr | Penaethiaid/ Swyddogion amddiffyn plant/ Awdurdod Lleol | 2.3.2<br>2.3.3 | | | | |
| Rheoli risgiau ac ymateb i ddigwyddiadau | Llywodraethwyr/ Penaethiaid/ athrawon/ | 2.3.2<br>3.4.1 | | | | |

| 1. Yn arwain | 2. Yn datblygu | 3. Yn gwella | 4. Yn heriol |
|---|---|---|---|